# Llais Ogwan

*Papur Bro Dyffryn Ogwen*

**Rhifyn 487 · Ebrill 2018 · 50c**

# Cofio 'Brenin y Bysys'

**Rhifyn arbennig o Pwy Sy'n Cofio Ddoe?**
**gan Dr J. Elwyn Hughes**

Yn rhifyn mis Mawrth Llais Ogwan, addewais y byddwn yn parhau â hanes 'Brenin y Bysys'; roedd gen i ddwy ysgrif arall am ein harwr yn barod ar gyfer rhifynnau Ebrill a Mai. Ond 'chaiff yr ysgrifau hynny mo'u cyhoeddi – o leiaf nid ar hyn o bryd – gan nad addas hynny a Dafydd druan wedi ein gadael am bum munud i un fore Mawrth, Mawrth 27, yn Ysbyty Gwynedd. Mwy gweddus y mis hwn, dw i'n meddwl, fyddai i mi gynnwys copi (bron yn gyflawn) o'r deyrnged a draddodais yn ei angladd yn yr Amlosgfa ym Mangor ddydd Gwener, Ebrill 6 – a dw i'n hynod ddiolchgar fod ei gyfnither, Heulwen (Roberts), wedi fy ngwadd i gofio fy hen gyfaill ar yr achlysur trist hwnnw.

**J. Elwyn Hughes**

Er cof am ŵr annwyl a chyfaill agos Ro'dd David Elwyn Pritchard, a rhoi iddo ei enw llawn – neu Dafydd Rose fel y câi ei nabod gydag anwyldeb gan bawb – yn hanu o un o hen deuluoedd yr ardal – teulu'r cwmni bysys lleol, y Purple Motors, a sefydlwyd gan ei daid yn ystod ail ddegawd y ganrif dd'wetha. Roedd mam Dafydd, sef Ellen Rosina (a alwyd yn Rose), yn ail blentyn o'r saith o blant a aned i Thomas John a Catherine Jane Roberts. Priododd Rose efo Robert John (Bob) Pritchard a chawsant dri o blant: Trefor, Dafydd a Helen. Bu farw eu tad pan oedd y plant yn weddol ifanc a chawsant eu magu yn y Victoria Café yn Rhes Victoria, lle'r oedd Rose yn gwneud y peis blasus hynny oedd yn enwog drwy'r ardal a'r tu hwnt – rhywbeth yr oedd Dafydd yn ymfalchïo ynddo fo bob amser.

**DIREIDI – A GWAITH**

Cafodd Dafydd ryw gymaint o'i addysg gynnar yn Ysgol y Cefnfaes a chofiaf iddo dd'weud wrtha i, fwy nag unwaith, mai'r unig athrawes oedd yn fistar corn arno fo oedd Miss Jennie Ellis o'r Carneddi. Ac yn ôl pob sôn roedd o'n gena bach direidus iawn yn yr ysgol ac yn y cartref – ac ymhobman arall o ran hynny.

Dw i'n meddwl fod Mr Tom Davies, tad Heulwen a Rheolwr Purple Motors, wedi rhoi gwaith i Dafydd yn y garej yn syth ar ôl iddo adael yr ysgol ac mi ddois inna i'w nabod pan gefais waith yn gondyctyr yn ystod fy ngwylia o'r Coleg. Yna, wedi llwyddo i gael fy nhrwydded i fod yn yrrwr, un o'r tasgau a roddwyd i yrwyr y bysys oedd dysgu Dafydd i fod yn gondyctyr – a dyna hwyl a gawsom yn ei ddysgu i drin y peiriant tocynnau (nid gorchwyl hawdd i unrhyw newyddian ond wna i ddim manylu ar y trafferthion!). Ond meistrolodd Dafydd y dechneg a dŵad yn gondyctyr o'r iawn ryw. Tua dechra'r brentisiaeth honno y des i'n dipyn o ffrindia efo Dafydd. Roedd Mr Tom Davies (ei ewythr) yn ein rhoi efo'n gilydd ar y dybl-dec yn aml ac uchafbwynt rhai o'r teithia hynny fyddai stopio yn Siop Orme, lle byddai Dafydd



yn gofyn am banad=a-pei i ni ein dau ac yna'n suddo'i law i mewn i'w fag pres a chyhoeddi: 'Yncl Tom sy'n talu'.

Roedd Dafydd yn meddwl y byd o'r bysys a chwmni'r hogia. A dyna pam na ddeallais erioed pam mai yn ffatri Austin Taylor y goffennodd o'i yrfa waith. Mae'n siŵr gen i fod ganddo straeon o'r cyfnod hwnnw hefyd ond chlywais i erioed mohono'n sôn am y rheini. Na, straeon y bysys fydda hi bob amser.

**AR Y BYSYS**

Pan ges i wahoddiad gan Gymdeithas Hanes Dyffryn Ogwen i roi sgwrs (efo llunia) ar y testun 'Ar y Bysys', neidiodd Dafydd at y cyfle i ddŵad efo fi ac mi synnais wrth alw amdano a chael ei fod wedi paratoi arddangosfa ar gardfwrdd mawr o lunia hen fysys y Purple Motors. Ac mi aethon i roi'r un sgwrs yn y Caban, Gerlan, ac yng Nghlwb Hanes Rachub.

Y llynedd, gofynnwyd i mi sgwennu cyfres dan yr un teitl, 'Ar y Bysys', ar gyfer Llais Ogwan. Sonniais i ddechrau am nifer o hogia'r Purple Motors ac, yn fwriadol, cadwais Dafydd tan y diwedd. A dw i wedi difaru'n arw na fyddwn wedi sôn am Dafydd ar ddechrau'r gyfres y llynedd. Gofynnodd i mi ryw ddau fis yn ôl: 'Pryd wyt ti'n mynd i dd'eud fy hanes i?' 'Ym mis Mawrth,' meddwn innau, 'ond wn i ddim pa straeon y galla i eu d'eud amdanat ti' 'Yli, mi wna i restr i ti,' medda fo fel chwip, 'Faint o straeon wyt ti isio'. 'Rhyw dair neu bedair', meddwn inna. A chefais bump – pump o deitla troeon trwstan Dafydd pan oeddan ni'n gweithio efo'n gilydd.

Ymddangosodd yr ysgrif gyntaf o'r tair oedd yn barod gen i amdano fo y mis d'wetha, ac roedd Dafydd uwchben ei ddigon pan welodd y teitl: 'Brenin y Bysys'. Gwir dristwch petha ydi na chafodd weld y ddwy ysgrif nesaf oedd i ymddangos yn Ebrill a Mai.

**Parhad ar dudalen 5**

Llais Ogwan


## Panel Golygyddol

**Derfel Roberts**
☎ 600965
hylaw@btinternet.com

**Ieuan Wyn**
☎ 600297
ieuanwyn01@gmail.com

**Lowri Roberts**
☎ 600490
l.roberts11@btinternet.com

**Fiona Cadwaladr Owen**
☎ 601592
fionaowen28@gmail.com

**Neville Hughes**
☎ 600853
nev_hughes@btinternet.com

**Dewi A Morgan**
☎ 602440
dewimorgan@live.co.uk

**Trystan Pritchard**
☎ 07402 373444
trystanrp1@gmail.com

**Walter a Menai Williams**
☎ 601167
waltermenai@yahoo.co.uk

**Orina Pritchard**
☎ 01248 602119
orinapritchard@gmail.com

**Rhodri Llŷr Evans**
☎ 07713 865452
Rhodri.llyr.evans@gmail.com

## Swyddogion

**Cadeirydd:**
Dewi A Morgan, Park Villa, Lôn Newydd Coetmor, Bethesda, Gwynedd LL57 3DT ☎ 602440
dewimorgan@live.co.uk

**Trefnydd hysbysebion**:
Neville Hughes, 14 Pant, Bethesda LL57 3PA
☎ 600853
nev_hughes@btinternet.com

**Ysgrifennydd**:
Gareth Llwyd, Talgarnedd, 3 Sgwâr Buddug, Bethesda LL57 3AH
☎ 601415
garethllwyd197@btinternet.com

**Trysorydd**:
Godfrey Northam, 4 Llwyn Bedw, Rachub, Llanllechid LL57 3EZ ☎ 600872
godfreydnortham@hotmail.co.uk

**Y Llais drwy'r post**:
Owen G Jones, 1 Erw Las, Bethesda, Gwynedd LL57 3NN ☎ 600184
post@llaisogwan.com


## Golygydd y mis

Golygwyd rhifyn y mis hwn gan Trystan Pritchard.

Y golygydd ym mis Mai fydd Neville Hughes, Bryn Ffrydlas, 14 Ffordd Pant, Bethesda, LL57 3PA. 01248 600853
E-bost: nev_hughes@btinternet.com

Pob deunydd i law erbyn **dydd Mercher, 2 Mai** os gwelwch yn dda.

**DALIER SYLW**: nid oes gwarant y bydd unrhyw ddeunydd fydd yn cyrraedd ar ôl y dyddiad cau yn cael ei gynnwys.

**Plygu nos Iau, 17 Mai**, yng Nghanolfan Cefnfaes am 6.45.


Cyhoeddir gan Bwyllgor Llais Ogwan @Llais_Ogwan

Cysodwyd gan Elgan Griffiths
elgangriffiths@btinternet.com
☎ 01970 627916
Argraffwyd gan *y Lolfa*


Nid yw pwyllgor Llais Ogwan na'r panel golygyddol o angenrheidrwydd yn cytuno â phob barn a fynegir gan ein cyfranwyr.

**Mae Llais Ogwan ar werth yn y siopau isod:**

**Dyffryn Ogwen**
Londis, Bethesda
Siop Ogwen, Bethesda
Cig Ogwen, Bethesda
Tesco Express, Bethesda
SPAR, Bethesda
Siop y Post, Rachub

**Bangor**
Siop Forest
Siop Menai
Siop Ysbyty Gwynedd

**Caernarfon**
Palas Print

**Porthaethwy**
Awen Menai

**Rhiwlas**
Garej Beran

## Dyddiadur y Dyffryn

**Ebrill**

21 Bore Coffi Cymdeithas Capel Jerusalem. Cefnfaes. 10.00 – 12.00.
28 Bore Coffi Cyfeillion Ysbyty Gwynedd. Cefnfaes. 10.00 – 12.00.
30 Te Bach. Carmel Llanllechid. 2.30 – 4.00.

**Mai**

01 Cyfarfod Blynyddol Plaid Cymru Dyffryn Ogwen. Cefnfaes am 7.00.
03 Sefydliad y Merched Carneddi. Mari Gwilym. Cefnfaes am 7.00
09 Plaid Lafur Dyffryn Ogwen. Cefnfaes am 7.30.
11/12 Sioe Glybiau Theatr Bara Caws. Neuadd Ogwen am 7.30.
12 Bore Coffi Cymorth Cristnogol. Cefnfaes. 10.00 – 12.00
12 Bore Coffi NSPCC. Caffi Coed y Brenin. 10.00 – 12.00.
12 Marchnad Ogwen. Neuadd Ogwen. 9.30 – 1.00.
14 Merched y Wawr Tregarth. Arwyn Oliver a Now Jones. Festri Shiloh am 7.30.
17 Plygu Llais Ogwan. Cefnfaes am 6.45.
20 Cymanfa Ysgolion Sul Dosbarth Bangor a Bethesda. Capel Emaus, Bangor am 10.30
23 Cyfarfod Blynyddol Balchder Bro Ogwen. Cefnfaes am 7.00

**Diolch Dafydd ac Ann**
Hoffai'r pwyllgor golygyddol ddiolch i Dafydd ac Ann Williams, Gerlan am eu cyfraniad sylweddol i'r Llais dros sawl degawd. Diolch o galon i chi'ch dau.

**Diolch Dewi**
Hoffai'r pwyllgor golygyddol ddiolch i Dewi Llywelyn Sion am ei gyfraniad i Llais Ogwan dros y blynyddoedd diweddar. Diolch yn fawr Dewi.

I hysbysebu yn **Llais Ogwan, Neville Hughes** 600853 (nev_hughes@btinternet.com)


**Modurdy Central**
**M.O.T. ar gael**
**Hefyd**
**Trwsio a Gwasanaeth**
**Ar Allt Pen-y-bryn, Bethesda**
**☎601031**

## Clwb Cyfeillion Llais Ogwan

**Gwobrau Ebrill**

| | | |
|---|---|---|
| £30.00 | (128) | Arfona Edwards, Maes y Garnedd, Bethesda. |
| £20.00 | (62) | Iona Wyn Jones, Pentre Llandygai |
| £10.00 | (68) | Gwyneth Roberts, Ffarm Cochwillan, Talybont. |
| £5.00 | (192) | Carys Dafydd, Braichmelyn. |

**Os am ymuno, cysylltwch â**

**Neville Hughes – 600853**

## Archebu trwy'r post

Gwledydd Prydain – £20
Ewrop – £30
Gweddill y Byd – £40

Owen G. Jones, 1 Erw Las, Bethesda, Gwynedd LL57 3NN
post@llaisogwan.com ☎ 01248 600184

## Llais Ogwan ar CD

Gellir cael copi trwy gysylltu â Gwyn yn swyddfa'r deillion, Bangor 01248 353604

Os gwyddoch am rywun sy'n cael trafferth â'i olwg, ac a hoffai dderbyn copi o'r Llais ar CD bob mis, cysylltwch ag un o'r canlynol:

**Gareth Llwyd** ☎ 601415
**Neville Hughes** ☎ 600853

Ariennir yn Rhannol gan Lywodraeth Cymru

CYMRAEG

## Rhoddion i'r Llais

| | |
|---|---|
| £50 | Er cof am ei rhieni, John a Jane Evans, Ciltwllan gynt, oddi wrth Iona Williams, Llanddulas. |
| £10 | Er cof am ei frawd, Neville, oddi wrth John Ffrancon Davies, Windsor. |
| £20 | Er cof am Gwilym Jones, Llanfairpwll, (Cilfodan gynt) oddi wrth Roy a Brenda. |
| £5 | Mrs. Joyce Tong a'r teulu, er cof am ei mam, Mrs. Gwyneth Williams, Fferm Pen y Bwlch. |
| £20 | Gwen a John Davies, Tanysgrafell Isaf, ar achlysur eu Priodas Ddeimwnt. |
| £400 | Cyngor Cymuned Bethesda |
| £100 | Cyngor Cymuned Llanllechid |
| £20 | Parchedig John Pritchard, Llanberis. |
| £30 | Er cof annwyl am Mrs. Nancy Williams, Ffordd Stesion, mam, nain a hen nain hoffus, oddi wrth Junior, Blodwen a'r plant. |
| £20 | I gofio am benblwydd Billy yn 80 oed ar 26 Mawrth, oddi wrth Olive, Gwyn, Enoc a Begw. |

**Diolch yn fawr**
**(Os am ymuno, cysylltwch â Neville Hughes – 600853)**

**Arfbais Douglas Arms**
**Cwrw Casgen - Gardd Gwrw**
**Noson Cwis** Yr ail nos Fawrth bob mis – 20:00
**Oriau Agor**
Llun – Gwener 18:00 – 23:00
Sadwrn 15:30 – 00:00
Sul 13:00 – 16:00 a 20:00 – 23:00
douglasarmsbethesda.com
01248 600219


**LLYTHYRAU**

**Gweithdy Dad-Goloneiddio ein Hunain**

Â chyffro mae Tyfu nid Torri mewn partneriaeth a Fforwm yr Eliffant Binc yn cyflwyno sesiwn dad-goloneiddio gan criw Radio Beca. Prif ffocws bydd adnabod sut y gallwn droi diffyg ddoe yn gryfder a chyfoeth i'r dyfodol.

Medd Euros Lewis, a fydd yn hwyluso'r gweithdy hon:

'Mae cymaint ohonom yn gorfod gweithio o fewn meddylfryd Prydeinig – meddylfryd Seisnig, mewn gwirionedd. Meddylfryd a seiliwyd ar rym y canol; ar drefn sy'n gwahaniaethu rhwng pobl o ran cyfle, cefndir, cyfoeth a statws. Rheolaeth – o'r brig i'r godre – yw hanfod y meddylfryd hwn. Mae cynefin y Gymraeg yn wahanol. Gellir ei grynhoi mewn gair: cymdeithas, sef cydweithio, cyd-ddadlau, cyd-ddychmygu a phob 'cyd' arall. Ein helpu i dorri'n rhydd o afael y naill a rhyddhau potensial y llall yw nod y gweithdy hon.'

Yn ogystal â chyflwyniadau mi fydd y gweithdy dad-goloneiddio yn cynnwys ymarferiadau ac mi fydd pawb sy'n mynychu yn cael copi o'r Llawlyfr Dad-goloneiddio i fynd adref gyda nhw.

'Mae'n bwysig fod y gweithdy yn gwneud gwahaniaeth – i bawb ohonom sydd yno ac i'n lleoedd gwaith a'n cymdogaethau' medd Euros. 'Wrth waelod pob newid er gwell mae criw bach o bobol sydd wedi cwestiynu; wedi gwrthod cydymffurfio; wedi gafael yn yr awenau.'

**GWEITHDY SUT MAE DAD-GOLONEIDDIO'N HUNAIN?**

Neuadd Ogwen, Bethesda, Nos Fercher y 25ed o Ebrill. Croeso i bawb!

Noddir Llawlyfr Dad-goloneiddio'n Hunain gan wasg Y Lolfa

Manylion pellach:
Heledd Melangell gogledd@cymdeithas.cymru 07547654966



**C.L. JONES**
Masnachwyr Coed a Nwyddau Adeiladu



Bethesda 01248 600045
Caernarfon 01286 676070
Llangefni 01248 751677

Cludiant am ddim yn lleol
Stoc helaeth ac amrywiol
Staff cyfeillgar a phroffesiynol
Popeth ar gyfer y diwydiant a D.I.Y

Mynytho 01758 730768
Llanrwst 01492 640794
Siop yn Llanrwst 01492 641798

Mae Arddangosfa Ceginau ac Ystafelloedd Ymolchi yn ein cangen yn Llangefni a'r Siop

# Y Gerlan

Ann a Dafydd Fôn Williams,

**Diolch**
Dymunwn ddiolch i Dafydd Fôn ac Ann Williams am eu gwaith yn casglu'r newyddion yn ardal y Gerlan dros y blynyddoedd. Gan mai'r mis hwn yw'r tro olaf iddynt fod yn gyfrifol am y golofn hon, dyma fanylion cyswllt y casglwyr newyddion yn ardal y Gerlan o hyn ymlaen:

Caren Brown
Cilwern,
14 Ffordd Gerlan,
Bethesda Ll57 3ST
602509 / 07789 916166
carenelaine@hotmail.com

Heledd Selwyn,
2 Pen Clwt,
Gerlan LL57 3TJ
heleddselwyn@hotmail.com

**MAWRTH 2018**
Nodyn gan y golygydd: Am resymau technegol, ni ymddangosodd colofn Y Gerlan yn Llais Ogwan mis Mawrth felly ymddiheurwn am hynny ac felly dyma golofn ddwbl mi yma!

**Cydymdeimlad**
Rydym yn cydymdeimlo gyda Gwion, Lisa, a'r hogiau, Stryd y Ffynnon, yn eu profedigaeth ddiweddar. Bu farw ewythr Gwion, sef y diweddar Gwilym Jones, Cilfodan gynt.

**Symud tŷ**
Rydym yn dymuno'r gorau i Sion, Kirsty, ac Isabel , gynt o Tan Treflys, yn eu cartref newydd ym Mryn Caseg. Gobeithiwn y byddwch yn hapus iawn yno.

**Llongyfarchiadau**
Rydym yn llongyfarch Gavin a Llinos, Gwernydd, ar achlysur eu dyweddiad yn ddiweddar. Pob dymuniad da i'r ddau ohonoch i'r dyfodol.

**Penblwydd arbennig**
Rydym yn dymuno penblwydd hapus iawn i Philip Williams, Ciltrefnus, y mis hwn. Mae'n benblwydd arbennig iawn i Phil, er ei bod yn anodd coelio ei fod yn cyrraedd oed ymddeol, ac yntau yn edrych mor dda, ac mor hynod o ffit. Gobeithiwn yn fawr yn byddi'n mwynhau'r achlysur, a'r ymddeoliad, yn fawr iawn

**Profedigaeth**
Estynnwn ein cydymdeimlad i Dylan a Lliwen Angharad, a Benjamin, Ffordd Gerlan, yn eu profedigaeth o golli nain a hen nain, sef y diweddar Muriel Williams, Garneddwen.



**Sands Gwynedd**
Yn ddiweddar bu i aelodau o Sands Gwynedd godi £5,700 i gefnogi Ambiwlans Awyr Cymru . Codwyd yr arian sylweddol hwn trwy gynnal nifer o weithgareddau, a thrwy dderbyn nifer o roddion. Mae'r arian yn cyfrannu at brynu offer i'r Helimed newydd, sydd yn gallu trosglwyddo babanod bach, sydd angen gofal arbennig, o Ysbyty Gwynedd i unrhyw ysbyty yn y wlad, sy'n gallu rhoi'r gofal hwnnw iddynt. Hoffai Nia Williams, Stryd y Ffynnon, ar ran Sands Gwynedd, ddiolch i bawb sydd wedi eu cefnogi yn yr Apêl. Yn y llun gwelir Nia a'i merch, Elen, a'i mab, Alun, gyda'r Ambiwlans Awyr, yn dilyn cyflwyno'r siec gan aelodau Sands Gwynedd i gynrychiolwyr Ambiwlans Awyr Cymru.

**Brysiwch wella**
Rydym yn gyrru ein cofion at Pam Roberts, Ciltrefnus, sydd heb fod yn dda yn ddiweddar. Mae pawb ohonom yn gyrru pob dymuniad am wellâd llwyr a buan ichi, Pam, ac yn edrych ymlaen i'ch gweld o gwmpas yr ardal unwaith eto.

**Tywydd garw**
Daeth Mawrth i mewn fel llew, gydag eira, rhew, a gwyntoedd egr. Bu i rai trigolion golli cyflenwad dŵr am gyfnod, a chollwyd trydan am gyfnod hefyd. Rhaid diolch i'r gweithwyr am adfer ein cyflenwadau mor fuan. Gobeithio na fu i i'r tywydd garw achosi problemau rhy fawr i neb o'r ardal, a bod pawb yn iawn. Gobeithio, hefyd, mai mynd allan fel oen fydd hanes y mis hwn eleni!

**EBRILL 2018**
**Yn yr ysbyty**
Rydym i gyd yn gyrru ein cofion at Robin Hughes, Freithwen Isaf, sydd, ar hyn o bryd, yn Ysbyty Walton yn Lerpwl. Pob dymuniad am wellhád llwyr a buan, Robin.

**Penblwydd 70**
Yn ddiweddar dathlodd Helen Williams, Ciltwllan, ei phenblwydd yn 70 oed. Llongyfarchiadau mawr, Helen, gan obeithio iti fwynhau'r dathlu gyda theulu a ffrindiau. Mae'n anodd iawn coelio'r ffaith fod Helen yn 70 oed, gan ei bod yn brysur yn gweithio bob dydd, ac yn edrych mor dda.

**Croeso**
Rydym yn croesawu cwpl ifanc i'n plith, sef Amy a Michael, i'w cartref newydd yn Stryd y Ffynnon. Nid yw Gerlan yn ddieithr i Amy, gan iddi gael ei magu ym Methesda, ac mae ei thaid, Glyn Ellis, yn byw yng Nghiltrefnus. Nid yw'r Gerlan mor gyfarwydd i Michael, gan mai o Awstralia y daw ef. Croeso mawr i'r ddau ohonoch; gobeitho y byddwch yn hapus yn ein plith.

**Dathlu'r 21**
Llongyfarchiadau mawr i'r efeilliaid, Brian a Craig, Stryd y Ffynnon, ar ddathlu eu penblwydd yn 21 oed ddechrau Mawrth. Gobeithio ichi fwynhau'r diwrnod, a phob dymuniad i'r dyfodol i'r ddau ohonoch.

**Cydymdeimlo**
Rydym yn cydymdeimlo gyda Michelle, Richard, a'r teulu, Gwernydd, yn eu profedigaeth o golli modryb Michelle, sef y diweddar Anne Jones, Llawr y Nant.

**Penblwydd 40**
Y mis diwethaf dathlodd Gareth Moriarty Owen, Stryd y Ffynnon, ei benblwydd yn 40 oed. Llongyfarchiadau mawr iti, Gareth. Gobeithio fod y dathlu wedi bod yn achlysur arbennig.

**Diolch**
Hoffai Ann a Dafydd Fôn ddiolch i bob un o drigolion y Gerlan am eich cefnogaeth iddynt fel gohebwyr yr ardal dros y blynyddoedd niferus. Diolch yn fawr ichi am ymddiried eich newyddion inni, yn llawenydd a thristwch, yn ddathliad ac yn brofedigaeth. Dyma'r rhifyn olaf o Lais Ogwan y byddwn ni yn gohebu ar ran ardal Gerlan. Bu'n fraint ac yn anrhydedd eich cynrychioli am gynifer o flynyddoedd.

**Parhad o'r dudalen flaen**

**NEWID BYD A CHYFEILLION DA**

Dair blynedd yn ôl, ym mis Ebrill 2015, â'i olwg wedi dirywio, bu'n rhaid iddo ildio'i drwydded yrru a gwerthu'i gar. Ergyd go arw iddo ond gwnaeth y gora o'r gwaetha a chymryd at deithio ar fysys i Fangor a llefydd eraill, gan wneud yn fawr o'i hawl i deithio arnyn nhw am ddim. Gwnaeth lawer o gyfeillion newydd ar ei deithia a mwynhau cwmni'r gyrwyr a rhannu ei atgofion efo nhw am ei brofiada ynta 'ar y bysys'.

Wrth gwrs, roedd gynno fo gyfeillion lu oherwydd ei fod yn troi mewn llawer o wahanol gylchoedd a chydag amrywiol ddiddordeba. Dw i ddim am geisio enwi holl ffrindia Dafydd ond mi fyddai'n sôn am garedigrwydd Glyn Bull yn aml ac felly hefyd am ei gymdogion, Rheinallt a Helen, ac am ei gyfeillion Valmai ac Alan (Tacsi), ac mae'n siŵr gen i fod llawer mwy a fu'n ffrindia da iddo y dylwn eu henwi ond dw i'n erfyn maddeuant am beidio â gwneud hynny, gan y gallai'r rhestr fod yn un hirfaith eithriadol.

**MOR BWYSIG BYD Y BÊL-DROED**

Roedd o'n gefnogwr brwd o ddau dîm pêl-droed, un ymhell i ffwrdd, sef Lerpwl, na fyddai fyth yn colli eu gwylio ar y teledu. Hoffwn adrodd un stori fach y berthynas rhwng Dafydd a'r Parchedig Geraint Hughes, cyn-Weinidog yr Eglwys Unedig – Dafydd yn gefnogwr Lerpwl a Geraint yr un mor frwd dros Manchester United – a'r ddau'n tynnu ar ei gilydd yn gyson. Roedd Geraint yn pregethu yn Jerusalem y bore Sul ar ôl i Man. U. gael cweir gan Barcelona y diwrnod cynt. Aeth Dafydd i Gapel Jerusalem a'i sodro'i hun yn agos at y tu blaen, a phan gyfarchodd Geraint y gynulleidfa yn ôl ei arfer; 'Bore da', ymatebodd Dafydd nid gyda 'Bore da' ond drwy wneud siâp ceg, 'Bar – ce – lô – na'.

Gwaetha'r modd, doedd ei iechyd bregus yn ddiweddar ddim yn caniatáu iddo fynd i wylio ei hoff dîm lleol, sef Mynydd Llandygái. Fo oedd yn arfar bod wrth y giât yn cymryd pres pobl yn dŵad i weld y gemau ac yn ddeddfol a chydwybodol iawn wrth y gwaith. A byddai'n aml yn sôn wrtha i am garedigrwydd mawr hogia'r Mynydd yn ei gludo i gemau oddi cartra – hogia fel Glyn Morris, Cliff, a Llifon. Roedd yn aelod o Bwyllgor y tîm ac ym mis Ebrill 2015 aeth ati ar ei liwt ei hun i drefnu Bore Coffi yng Nghaffi Coed y Brenin a chasglodd nifer fawr o roddion gan fasnachwyr lleol ac eraill i'w rhoi'n wobrau raffl. Os cofiaf yn iawn, mi gasglodd y gweithgaredd undyn yma tua £450 tuag at goffrau Clwb Pêl-droed Mynydd Llandygái.

**GORFFWYSFAN A'R CABAN**

Roedd o hefyd yn aelod balch o Bwyllgor Gorffwysfan yn y pentra ac yn mwynhau cwmni a sgwrs ei ffrindia ambell fore a hefyd y gwibdeithia a gâi eu trefnu i wahanol lefydd. Ond roedd hwn yn ddrws arall oedd yn prysur gau yn ei wyneb yn ddiweddar.

Roedd Dafydd hefyd yn aelod blaengar o'r Caban yn y Gerlan ac, yn bwysicach na dim, wedi cael ei godi i fod yn alwr Bingo, swydd yr oedd wrth ei fodd yn ei chyflawni. At hynny, roedd gynno fo swydd arall, sef dosbarthu Llais Ogwan i dros bymtheg o dai yn ei ardal bob mis. Ond ychydig dros wythnos yn ôl, dan deimlad a chyda thristwch yn ei lais, gofynnodd i mi sgwennu dau lythyr ar ei ran, y naill yn ymddiswyddo o fod yn alwr Bingo yn y Caban a'r llall yn rhoi'r gora i ddosbarthu Llais Ogwan. A dyna ddrysa eraill, oherwydd ei salwch a'i wendid, yn cau ar ddau weithgaredd pwysig yn ei fywyd.

**CAFFI COED Y BRENIN A'R BOREAU COFFI**

Ni allaf beidio â chrybwyll y boreau difyr a dreuliai'n gyson yng Nghaffi Coed y Brenin a'r croeso cynnes a gâi gan Karen, Linda a Sharon a'r staff i gyd, a lle'r oedd o'n frenin ar gornel y merched – Ann, Arfona, Brenda, Gwenfyl, Jess, a Beryl Brown (y byddai'n cael ymrafael geiriol efo hi'n amal). Roedden nhw i gyd yn ffrindia mawr efo fo. Ac felly hefyd yn y boreau coffi ar foreau Sadwrn – anaml y collai'r un o'r rhain a byddai'n hynod lwcus yn ennill gwobrau raffl yn eitha amal (a rhai o'r gwobrau hynny'n wirioneddol anaddas ac yn destun hwyl fawr i bawb, gan gynnwys Dafydd ei hun – fel y botel o Brylcreem a enillodd un tro a babi dol dro arall).

**CYDYMDEIMLO A GWERTHFAWROGI**

Oedd, roedd diddordebau a gweithgareddau Dafydd yn eang ac amlochrog a'i gylch cyfeillion yn enfawr. Roedd yn fawr ei barch, yn boblogaidd ac yn gymeradwy gan bawb oedd yn ei nabod. Pan fyddai unigolion neu deuluoedd mewn profedigaeth a galar, byddai Dafydd ymhlith y rhai cyntaf i guro'r drws, gyda chardyn cydymdeimad a rhodd yn yr amlen. Ac roedd gynno fo'i hun brofiad o brofedigaetha: colli'i frawd, Trefor, ac yna'i fam, a'r ergyd fawr pan gollodd ei fab, Robert, yn 32 oed, ddeuddydd ar ôl y Nadolig yn 2003, ac yna colli'i chwaer, Helen, wedi cystudd hir, ar Hydref 3, 2013. A'r un nodwedd bwysig arall oedd yn perthyn iddo oedd mor werthfawrogol oedd o am bob cymwynas a chymorth; alla i ddim cyfri sawl gwaith y clywais i o'n d'eud: 'Diolch, pal'; 'Diolch, mêt'; 'Diolch, Êls', un ar ôl y llall yn aml, heb sôn am yr ymadrodd oedd yn unigryw iddo fo: 'Diolch o galon iawn'.

A'r cyfan oll y soniais amdanyn nhw uchod yn nodweddion oedd yn perthyn i un gŵr a brofodd bob math o broblema ac anawstera yn ystod ei fywyd, gan gynnwys nifer o anhwyldera, ac nid y lleiaf o'r rheini oedd y cricmala riwmatoid poenus a ddaethai'n gynyddol broblemus iddo fo dros y blynyddoedd. Dros y ddwy flynedd dd'wetha, amlhaodd ei broblema iechyd nes cyrraedd penllanw bythefnos yn ôl. Llithrodd yn araf o afael ei deulu a'i ffrindia ac mor falch oedd Deilwen a minnau o fod efo fo yn ei awr olaf yn Ysbyty Gwynedd.

Dylwn hefyd gydnabod mor driw a ffyddlon y bu Heulwen i'w chefnder, yn enwedig felly ym misoedd olaf ei lesgedd a'i waeledd. Fe grynhodd Dafydd ei hun ei werthfawrogiad o'i gofal a'i charedigrwydd drwy ddweud: 'Mae hi fel chwaer i mi'. A diolch, hefyd, i'w gŵr, Emyr, am ei gefnogaeth a'i gymorth i Dafydd bob amser. Gwaetha'r modd, 'allai Emyr a Heulwen ddim bod yn angladd Dafydd gan eu bod ar y pryd ym mhen draw'r byd yn Awstralia.

**COLLI CYMERIAD**

Roedd Dafydd yn gymeriad lliwgar, hwyliog ac amlochrog, pendant a diysgog ei farn a heb os nac oni bai yn un o'r gwir gymeriada gwahanol hynny sydd wedi prysur ddiflannu o'n plith. Dw i'n siŵr fy mod yn mynegi ein cydymdeimlad ni i gyd â'r teulu oll yn eu colled lem.

Roedd Dafydd Rose yn gymeriad na ellir – ac, yn wir, na fynnir – fyth ei ollwng o'n cof!

Gallwn ddweud, yn briodol iawn:

**Darfu'r wên a darfu'r hwyl / Yr enaid oedd mor annwyl.**
**ond, er hynny,**
**Ein hiraeth nid yw'n oeri / Am un hoff gollasom ni**

Dilynwch ni ar trydar
@Llais_Ogwan

Copa
Siop Trin Gwallt a Harddwch
Bethesda 600094
Yn arbenigo mewn trin gwallt merched, dynion a phlant.
Cynghori, gosod a thorri wigiau
Rhai gwasanaethau harddwch a shafio (rasal "cut throat")

# *Beth sy'n digwydd yn y Dyffryn?*

## DYDDIADUR BOREAU COFFI 2018

**2018**

21 Ebrill – Cefnfaes – Cymdeithas Capel Jerusalem.
28 Ebrill – Cefnfaes - Cyfeillion Ysbyty Gwynedd
12 Mai – Cefnfaes - Cymorth Cristnogol.
12 Mai _ Caffi Coed y Brenin – NSPCC
19 Mai – Cefnfaes ddim ar gael.
02 Mehefin – Cefnfaes – Cronfa Tracy Smith.
16 Mehefin – Cefnfaes – Clwb Nofio
23 Mehefin – Cefnfaes – Plaid Cymru
30 Mehefin – Neuadd Ogwen – Eisteddfod Dyffryn Ogwen.
07 Gorffennaf – Cefnfaes – Capel Jerusalem.
14 Gorffennaf – Caffi Coed y Brenin – NSPCC
08 Medi – Caffi Coed y Brenin - NSPCC
29 Medi – Cefnfaes – Plaid Cymru.
06 Hydref – Cefnfaes – Gorffwysfan.
13 Hydref – Cefnfaes – Cronfa Tracy Smith
20 Hydref – Cefnfaes – Eglwys St. Cedol.
27 Hydref – Cefnfaes – Eisteddfod Dyffryn Ogwen.
03 Tachwedd – Cefnfaes – Neuadd Talgai.
24 Tachwedd – Caffi Coed y Brenin – NSPCC
24 Tachwedd – Cefnfaes – Cronfa Cancr y Prostrat.
01 Rhagfyr – Cefnfaes – Plaid Lafur

*Pwysig*
*Os yn trefnu Bore Coffi yn ardal Bethesda, bydd y rhestr uchod yn gymorth i chi ddewis dyddiad gwag. Gallwch wedyn gynnwys eich dyddiad chi ar y rhestr hon. Bydd yn cael ei diweddaru ac yn ymddangos pob mis. Anfonwch y manylion at Neville Hughes (600853).*

I hysbysebu yn **Llais Ogwan,**
**Neville Hughes** 600853
(nev_hughes@btinternet.com)

CANOLFAN CEFNFAES

**GYRFA CHWIST**
EBRILL 24
MAI 8, 22 a 29
am 7:00 o'r gloch. Croeso i bawb

**Carmel Llanllechid**
Te Bach
**Dydd Llun, 30 Ebrill**
2.30 – 4.00
Croeso i bawb!

CANOLFAN CEFNFAES

**BORE COFFI CYFEILLION YSBYTY GWYNEDD**
SADWRN, 28 EBRILL
10.00 – 12.00
MYNEDIAD : £1.00

**Plaid Cymru Dyffryn Ogwen**
**CYFARFOD BLYNYDDOL**
yng Nghefnfaes
**Nos Fawrth, 1 Mai**
**am 7.00 yh**
Siaradwr Gwadd:
Aaron Wynne
(Trefnydd Etholaeth Arfon)

**Balchder Bro Dyffryn Ogwen**
**Cyfarfod Blynyddol**
Canolfan Cefnfaes
**Nos Fercher, 23 Mai**
am 7.00yh

CANOLFAN CEFNFAES

**BORE COFFI CYMDEITHAS CAPEL JERUSALEM**
SADWRN, 21 EBRILL
10.00 – 12.00
MYNEDIAD : £1.00

CAFFI COED Y BRENIN

**BORE COFFI NSPCC**
SADWRN, 12 MAI
10.00 – 12.00
MYNEDIAD : £1.00

CANOLFAN CEFNFAES

**BORE COFFI CYMORTH CRISTNOGOL**
SADWRN, 12 MAI
10.00 – 12.00
MYNEDIAD : £1.00

CYMANFA YSGOLION SUL
**DOSBARTH BANGOR A BETHESDA**
Capel Emaus, Bangor
**Dydd Sul, 20 Mai**
am 10.30yb
Croeso i bawb.

Marchnad Ogwen

**Mai 12fed**
**Neuadd Ogwen, 9.30am - 1.00pm**

**Mehefin 9fed**
**Sioe Dyffryn Ogwen**

**Gorffennaf 14eg**
**Neuadd Ogwen, 9.30am - 1.00pm**

Bwydydd, Crefftau, Lleol

**www.marchnadogwen.co.uk**
**Facebook**

# Apêl Am Ymddiriedolwyr Newydd

Hoffai Cymdeithas y Deillion Gogledd Cymru hysbysebu ei hangen i recriwtio pedwar/pedair ymddiriedolwr newydd. Y nod yw cynorthwyo gyda'r gwaith pwysig o gynnal a rheoli elusen sy'n darparu gwasanaethau i 3,000 o bobl dall a rhannol ddall led-led Gogledd Cymru.

Gofynnir am ymrwyniad amser hyd at chwe awr y mis. Bydd yr ymgeiswyr llwyddiannus yn ymuno â chriw brwdfrydig sy'n gweithio'n agos gyda'r prif weithredwr, staff a gwirfoddolwyr i gynllunio a darparu gwasanaethau i bobl a nam golwg. Mae'r Gymdeithas yn cynnig ystod eang o wasanaethau a chefnogaeth i'r bobl hyn.

Ymysg y gwasanaethau a gynigir gan y Gymdeithas ceir:

- Recordio llyfrau llafar a phapurau newydd
- Cynnal nifer o grwpiau a gweithgareddau
- Canolfan adnoddau
- Gwasanaeth swyddogion adfer
- Addysgu technoleg gwybodaeth

Mae'r Gymdeithas yn awyddus i dderbyn ceisiadau oddi wrth unigolion o bob tras a chefndir sydd ag ystod eang o sgiliau a phrofiadau.

Os hoffech fwy o wybodaeth neu sgwrs gyffredinol am rôl ymddiriedolwr, gellir cysylltu â'r Prif Weithredwr, Steven Thomas
Cymdeithas y Deillion Gogledd Cymru
North Wales Society for the Blind
325 Stryd Fawr, Bangor, Gwynedd,
LL57 1YB
☎ (01248) 353604
admin@nwsb.org.uk drwy ffonio 01248 353604 neu e.bostio at steven@nwsb.org.uk



*Griff Charles Morris Judith Kaufmann yn plannu coed afal yn Pandreiniog ar Dydd Sul 25 o Mawrth. Mae Perllan Pantdreiniog nawr yn cynwys 19 o goed o wahanol rhywogaethau!*

## Carneddi

**Diolch**
Mae Victor Roberts, Cilfodan, yn dymuno diolch yn fawr iawn i Steff, Sioned, Andrew, Caren a'r teulu am eu gofal caredig ac arbennig ohono yn dilyn ei ddamwain. Da deall dy fod gartref erbyn hyn Vic.

**Diolch**
Dymuna Roy a Brenda ddiolch am bob arwydd o garedigrwydd a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth o golli tad, sef y diweddar Mr. Gwilym Jones, Llanfairpwll, gynt o Cilfodan, Carneddi. Diolch yn arbennig am y rhoddion hael o £545.00 a dderbyniwyd er cof amdano, sydd wedi eu trosglwyddo i Plas Mona, Llanfairpwll. Diolch hefyd i'r gweinidog, y Parchg. Geraint Roberts, Llandegfan, ac i Mr. Stephen Jones, y trefnydd angladdau. Diolch yn fawr iawn!

PANTRI PAT

## Cawl llysiau a dipyn o gic ynddo!

1½ cenhinen wedi eu torri.
1 nionyn wedi ei dorri + 1 gewin garlleg.
3 moronen fawr - 1 wedi ei gratio a 2 wedi eu torri'n dafelli (sleisio) ar eu hyd, ac wedyn eu torri'n denau fel matsys.
10 o sugar snaps wedi eu tafellu.
10 o ffa bychan wedi eu torri'n tafelli.
1 pupur coch wedi ei dorri'n fân.
1½ chilli wedi eu tafellu'n fân iawn.
½ brocoli – gratiwch ½ y goes a'i ychwanegu at y cennin a'r nionyn. Torrwch y brocoli yn fân a'i ychwanegu yn olaf.
2 stoc cyw iâr mewn 2 beint o ddŵr.
1 llwy de lefel o halen + ½ pupur du.

Ffriwch y cennin, y nionyn a choes y broccoli mewn menyn (di-halen) + olew.
Rhowch y caead ar y sosban a chwysu'r llysiau am ryw 5 munud ar wres isel.
Peidiwch â'u brownio.
Wedyn ychwanegwch y gwlych (stoc) a'r llysiau i gyd ond ychwanegu'r brocoli ar ôl rhyw 5-10 munud.
Ei fudferwi am tua ½ awr gan ei droi bob hyn a hyn.
Gellir ychwanegu gweddillion y cyw iâr i'r cawl, neu gorgimwch os dymunwch.

Pryd blasus efo tost a menyn neu fara garlleg.

**Llais Ogwan**
Dilynwch ni ar trydar
@Llais_Ogwan

# Bethesda

**Mary Jones**,
maryeds@hotmail.co.uk
☎ 07443 047642
**Joe Hughes**, Awel y Nant,
Ffordd Ffrydlas, Bethesda
☎ 601902

**Ysbyty**
Cofion cynnes a gwellhad buan i Mrs. Mair Jones, Ffordd Bangor, sydd wedi cael llawdriniaeth yn Ysbyty Gwynedd.

**Cydymdeimlo**
Anfonwn ein cydymdeimlad at sawl teulu mewn profedigaeth, sef:-

Mr. Gwilym Williams a'r teulu, Glanogwen. Collodd Gwilym ei chwaer, Betty, yn Lloegr.

Teulu Mrs. Eirlys Jones, Braichmelyn.

Mr. a Mrs. Cledwyn Thomas, Abercaseg. Collodd Cledwyn ei chwaer, Mrs. Marion Iwan, Waunfawr, ar 3 Ebrill.

**Gair o Ddiolch**
Dymuna Gwen a John Davies, Tanysgrafell Isaf, ddiolch i'r teulu a ffrindiau am eu rhoddion hael ar achlysur eu Priodas Ddeimwnt. Trosglwyddwyd £200.00 i Ambiwlans Awyr Cymru. Diolch yn fawr iawn.

Dymuna Mrs. Mair Taylor, Maes y Garnedd, ddiolch yn fawr iawn i'r teulu, cymdogion a chyfeillion am yr holl gardiau ac anrhegion a dderbyniodd ar achlysur dathlu ei phenblwydd yn 80 oed ar 5 Mawrth.

Mae Helen a Bethan, Ffordd Ffrydlas, yn dymuno diolch i'r teulu, cymdogion a chyfeillion am bob arwydd o gydymdeimlad tuag atynt yn eu profedigaeth o golli priod a thad annwyl a gofalus, sef Elfed Wyn Jones a fu farw ym mis Chwefror. Maent yn ddiolchgar iawn i'r Parchedig Gwynfor Williams, cyn weinidog Shiloh, ac i Mr. Wyn Williams, Shiloh am ei wasanaeth wrth yr organ. Diolch hefyd am y rhoddion tuag at Ward Hebog, Ysbyty Gwynedd ac Ymchwil Cancr Cymru, ac i Mr. Gareth Williams, Garneddwen am ei drefniadau tawel a pharchus.

**Marwolaethau**
*Annie Mary Jones*
Yn Ysbyty Gwynedd, ar 25 Mawrth, bu farw Mrs. Annie Mary Jones, 14 Llawr y Nant, yn 70 mlwydd oed. Priod annwyl Mr. Emyr V. Jones, mam ofalus y diweddar Ian a nain hoffus i Damian, Gavin a Dion, a chwaer a chwaer yng nghyfraith i Mr. a Mrs. John Roberts, Ffordd Pant. Cynhaliwyd ei hangladd ddydd Mawrth, 3 Ebrill yng Nghapel Carmel, Llanllechid a Mynwent Coetmor. Gwasanaethwyd gan y Parchedig Dafydd Coetmor Williams, gyda Mrs. Helen Williams wrth yr organ. Anfonwn ein cydymdeimlad atoch fel teulu i gyd.

*David Elwyn Pritchard*
Ar 27 Mawrth, yn Ysbyty Gwynedd bu farw Mr. David Elwyn Pritchard (Dafydd Rose), 17 Rhes Elfed yn 73 mlwydd oed. Tad William, Michael a'r diweddar Robert, cefnder a chyfaill triw. Yn fab i'r diweddar Mr. Bob a Mrs. Rose Pritchard, Rhes Fictoria, ac yn frawd i'r diweddar Trefor a Helen.

Roedd Dafydd wrth ei fodd yn sgwrsio â phawb, yn arbennig os byddai'r sgwrs am fysus. Roedd yn mwynhau galw yng Nghaffi Coed y Brenin bron bob dydd i gael sgwrs dros goffi gyda ffrindiau.. Roedd yn aelod selog o Glwb y Gerlan ac yn hael ei gefnogaeth i bob Bore Coffi ym Methesda. Roedd wrth ei fodd gyda'i gyfeillion yn "Y Bull", Stryd Fawr, ac yn aelod o dîm dominos yno. Lerpwl oedd ei dîm peldroed ac yn gefnogwr brwd iddynt, ond yn lleol Mynydd Llandygai oedd ei dîm. Byddai'n mwynhau galw i gael sgwrs hefo'r hogia yn Ngorffwysfan ar foreau Llun a Gwener, ac wrth ei fodd yn mynd ar y gwibdeithiau.

Bu ei angladd ddydd Gwener, 6 Ebrill, gyda gwasanaeth yn Amlosgfa Bangor dan arweiniad y Parchedig Ddr. Huw John Hughes, a'r Parchg. Geraint Hughes yn cynorthwyo. Cafwyd teyrnged iddo gan ei ffrind, y Dr. J. Elwyn Hughes, Bethel, ac fe ddarllenwyd teyrnged iddo a anfonwyd o Awstralia gan Heulwen ac Emyr Roberts. Mrs. Deilwen Hughes oedd wrth yr organ.

Cydymdeimlwn â chwi fel teulu i gyd yn ogystal â'i gyfaill Elwyn a'r teulu.

**Gorffwysfan**
Ar fore Sadwrn, 17 Mawrth, cafwyd Bore Coffi llwyddiannus iawn gydag elw o £281.00. Diolch yn fawr iawn i bawb fu'n helpu ac am yr holl nwyddau a gwobrau i'r raffl.

Cofiwch am y wibdaith i Gaer, ddydd Mercher, 25 Ebrill. Cychwyn ger y gofeb am 8.30yb.

Anfonwn ein cofion at yr aelodau sy'n sâl gartref neu yn yr ysbyty, yn eu plith mae Mrs. Avril Griffith, Rachub, Mr. Joe Evans, Glanffrydlas a Mrs. Joan Griffiths, Glanffrydlas.

**Cyfeillion Ysbyty Gwynedd**
Cynhaliwyd Noson Cawl a Chân ar nos Sadwrn, 24 Mawrth, yng Nghlwb Rygbi Bangor. Cafwyd noson ardderchog yng nghwmni Hogia'r Bonc, a chafwyd cawl blasus wedi ei baratoi gan Sandra a Beryl. Cafwyd gair o groeso a gair o ddiolch gan Joe Hughes, Cadeirydd Cyfeillion Ysbyty Gwynedd. Diolchodd i swyddogion y Clwb Rygbi, i Sandra a Beryl, i Hogia'r Bonc, ac i Iona a Denzil am drefnu'r noson. Gwnaed elw o £1,010.00 tuag at waith y Cyfeillion.

Cofiwch am y Bore Coffi ar Sadwrn, 28 Ebrill yng Nghanolfan Cefnfaes, Bethesda am 10.00.

**Perllan Gymunedol**
Mae ein perllan gymunedol yn tyfu! Daeth criw bach o selogion Perllan Pant Dreiniog ynghyd fis Mawrth i blannu ail ran y berllan newydd ar dir Pant Dreiniog. Y llynedd, plannwyd saith o goed ffrwythau, ac maen nhw i gyd bellach

**Darlith Goffa Rhiannon Rowlands**
Cynhelir y ddarlith hon yn flynyddol gan Gymdeithas Hanes Dyffryn Ogwen i gofio am Rhiannon â'i holl waith a'i brwdfrydedd dros y Gymdeithas am flynyddoedd lawer. Y darlithydd eleni oedd Dr. John Ll. Williams a fu'n siarad ar y testun "Ai y Star ddylai'r enw fod? – Hanes Datblygiad Bethesda." Cafwyd toreth o wybodaeth ddifyr am yr ardal ganddo. Noson ardderchog – ac addysgiadol hefyd! Yn llun, a dynnwyd ar ddiwedd y noson, gwelir ef yng nghwmni Arthur Wyn Rowlands.





yn tyfu ac yn iach. Eleni, daeth 12 o goed afal yn rhodd gan Barc Cenedlaethol Eryri - pedair bob un i dri chyngor cymuned y dyffryn. Anodd oedd barnu pryd i'w plannu: yr amser gorau i wneud hynny yw misoedd y gaeaf cyn i'r coed ddechrau tyfu eto, ond eleni roedd hi mor oer a rhewllyd, a'r pridd yn galed! Roedd y dydd Sul yr oedden ni wedi ei glustnodi yn wreiddiol yn gweld y dyffryn yn wyn dan eira trwm, ond wythnos yn ddiweddarach yn unig, roedden ni'n lwcus i gael ychydig o haul!

Mae tir Pant Dreiniog yn drwm o lechi mân, wrth gwrs, ac nid yw'r gwaith o wneud hyd yn oed twll bach yn un hawdd! Ond diolch i afalau perllan Moelyci, cawsom nerth newydd o'r sudd a wnaethon ni ei wasgu fis Tachwedd diwethaf efo'n gwasg gymunedol! Rŵan bydd eisiau aros i'r coed newydd wreiddio'n iawn, ac ymhen ychydig o flynyddoedd, gobeithio, bydd perllan gymunedol Pant Dreiniog yn rhoi'r ffrwythau cyntaf i bawb eu mwynhau!

**Priodas Aur**

Llongyfarchiadau cynnes i Derek a Sylvia Griffiths, 15 Rhos y Coed, ar ddathlu eu priodas aur (50 mlynedd) ar y 9fed o Fawrth. Dymunwn flynyddoedd eto o hapusrwydd a dedwyddwch iddyn nhw a gobeithio iddyn nhw fwynhau'r dathliadau.

**Gwaeledd**

Roedd hi'n ddrwg gan bawb glywed am waeledd Erin, merch Darren a Debbie Griffiths, Stad Coetmor yn ddiweddar. Erbyn i'r copi hwn o'r Llais eich cyrraedd dylai Erin fod wedi derbyn llawdriniaeth yn Ysbyty Alder Hey a hyderwn ei bod yn gwella. Dymuniadau gorau i ti Erin.

## Ysgol Abercaseg



**Wythnos Werdd**

Eleni bu plant yr ysgol yn cynnal Wythnos Werdd i hyrwyddo materion gwyrdd megis ail gylchu ac arbed ynni. Bu i bob dosbarth greu arteffactau o ddeunyddiau ailgylchu ar gyfer yr ardal "tu allan".

Yn benllanw ar y cyfan cafwyd Pared Penwisgoedd Pasg.Roedd y penwisgoedd i gyd wedi eu creu o ddeunyddiau ailgylchu. Diolch i'r plant (ac i'w rhieni) am gynhyrchu hetiau gwerth eu gweld.

Diolch i Mr Rheinallt Puw cynreichiolydd llywodraethwyr yr ysgol am feirniadu'r gystadleuaeth.

Diolch hefyd i Tesco Bethesda, Caffi Seren, Boots a Convenience Store am gyfrannu gwobrau ar gyfer y plant a'r raffl.

**Clwb Digidol**

Daeth clwb digidol i ben yr wythnos yma a chytunwyd gan y plant a'r rhieni fod y clwb wedi bod yn llwyddiannus dros ben. Braf oedd gweld y plant yn dysgu'r rhieni sut i ddefnyddio gwahanol dechnoleg!

**Ffarwelio**

Rydym yn ffarwelio a Mrs Heaton sydd wedi bod yn aelod gwerthfawr o'r staff ers 9 mlynedd. Rydym yn diolch iddi am ei gwaith caled wrth gefnogi'r disgyblion ac yn dymuno pob lwc iddi yn ei menter nesaf.

Yn ogystal a ffarwelio a Mrs Heaton rydym hefyd yn ffarwelio a Miss Hymphreys dosbarth Ogwen gan ddiolch o galon iddi am ei hymroddiad i'r ysgol. Pob dymuniad da iddi yn ei swydd newydd.

**Ffair Dreigiau Caseg**

Trefnodd Dreigiau Caseg ffair i ddathlu wythnos gymreig. Bu'r Dreigiau'n brysur yn cynllunio gemau amrywiol ac yn trefnu gweithgareddau. Bu pob dosbarth yn mwynhau yn eu tro a diolch i holl blant Blwyddyn 2 am fod mor weithgar.



# Ysgol Dyffryn Ogwen

Canlyniadau Eisteddfod Rhanbarth Eryri 2018
Côr Merched Blwyddyn 13 ac iau
2il Ysgol Dyffryn Ogwen
Unawd Merched bl 10 a dan 19 oed
3ydd Elen Wyn
Deuawd bl 10 a dan 19 oed
3ydd – Beca ac Elen
Unawd Piano bl 7 – 9
1af – Luned Roberts
Ymgom bl 7, 8 a 9
2il –Parti Hanna
Gwaith Lluniadu 2D bl 7,8 a 9 ADY
1af – Ithel Temple Morris
Gwaith Creadigol 2D bl 7.8 a 9
2il – Anest Bryn
Argraffu bl 7,8 a 9
1af – Idwal Temple Morris
Argraffu/Addurno ar Ffabrig bl 7, 8 a 9
1af – Ithel Temple Morris
Argraffu/Addurno ar Ffabrig bl 7, 8 a 9
2il – Idwal Temple Morris
Gwaith Creadigol 3D bl 7, 8 a 9
2il – Idwal Temple Morris
Gwaith Creadigol 3D bl 7, 8 a 9
3ydd – Anest Bryn
Gwaith Creadigol 3D bl 7, 8 a 9 ADY
1af – Ithel Temple Morris

**Clwb Codio**

Llongyfarchiadau mawr i glwb rhaglennu'r ysgol am ennill y Wobr i Ysgolion yn y gystadleuaeth Codio Cymru 2018.

**Wy, Chips a Nain**

Bu disgyblion blwyddyn 8 Ysgol Dyffryn Ogwen a chriw o flwyddyn 13 yn Theatr Pontio yn ddiweddar i wylio Gwenno Hodgkins ac Iwan Garmon yn perfformio Wy, Chips a Nain. Roedd awyrgylch arbennig yn y theatr a sylw pawb wedi ei hoelio'n llwyr ar y ddrama. Roedd y theatr yn llawn dop o blant o ysgolion lleol. Roeddem wedi dod i ddeall bod y ddrama yn dilyn perthynas rhwng Nain a bachgen ifanc, ond yn fwy penodol, dilyn stori'r ddau wrth iddynt sylweddoli fod gan Nain dementia. Yn amlwg mae gan y ddau berthynas unigryw a hoffus tu hwnt. Mae gan Nain ddylanwad mawr y bachgen. Bob dydd mae Nain (Gwenno Hodgkins) yn gwarchod Guto (Iwan Garmon) ac yntau'n ei helpu i roi'i dillad ar y lein yn yr ardd; mae gosod dillad ar y lein yn y ffordd gywir yn un o brif flaenoriaethau Nain. Bob nos bydd y ddau yn cael sgyrsiau unigryw, ac o ddydd i ddydd bydd Guto yn dod i ddysgu mwy am ei Nain, unai wrth roi dillad ar y lein, neu dros ei hoff bryd bwyd - Wy, Chips a bîns!

Erbyn diwedd y ddrama mae perthynas Nain a Guto wedi cryfhau os rhywbeth, a chariad y ddau tuag at ei gilydd dal yno ac yn amlwg, hyd yn oed pan mae Nain yn frwnt ei thafod ar rai adegau tuag at Guto. Dysga Guto sut i drin ei Nain drwy fod yn amyneddgar a chyfeillgar, treulio amser efo hi, a'i helpu. Mae hi hyd yn oed yn anghofio pwy yw Guto mewn rhannau o'r ddrama. Ar yr adegau hyn pan mae Nain yn ddryslyd iawn ac yn anodd ei deall, mae'r gynulleidfa yn dod i sylweddoli faint o effaith mae Dementia yn ei gael ar eraill.

*Elin Lewis 8 Idwal*

**Criced**

Bu dwy gystadleuaeth criced o safon yng Nglannau Dyfrdwy yn ddiweddar gyda'r timau dan13 a dan15 yn cystadlu'n frwd am deitl Pencampwyr Gogledd Cymru. Tro'r ddau dîm dan 15 oedd hi gyntaf a gydag un tîm yn y ddwy gynghrair ar gyfer y gemau rhagbrofol fe gyfarfu tîm1 a tîm2 YDO ei gilydd yn y rownd gynderfynol. Aeth tîm 1 ymlaen i'r rownd derfynol ar ôl curo o 25 rhediad. Er i dîm 1 yr ysgol golli yn erbyn Ysgol Alun yn y rownd gyntaf, wynebodd y ddau dîm ei gilydd yn y ffeinal - ond gyda chanlyniad gwahanol y tro hwn! Roedd Ysgol Dyffryn Ogwen yn fuddugol y tro yma o 76-65.

Ar Fawrth 19eg aeth y tîm dan 13 draw i Sir y Fflint hefyd a llwyddodd y tîm yma, a oedd yn gymysgedd o enethod bl7 dibrofiad a genethod bl8 mwy profiadol i gyrraedd y rownd derfynol. Colli o drwch blewyn yn erbyn Maes Garmon wnaeth tîm YDO gyda bwlch o 15 rhediad rhwng y ddau dîm. Mae'r ddau dîm wedi cael gwahoddiad i fynychu pencampwriaethau Gogledd Orllewin Prydain yn Bolton ym mis Ebrill. Llongyfarchiadau i'r holl chwaraewyr - Gwych!

**Traws-gwlad**

Mae Boe-Celyn Jones bl9 wedi bod yn serennu ym myd rhedeg traws-gwlad yn ddiweddar. Yn dilyn y rowndiau rhanbarthol yn Nolgellau ym mis Chwefror, aeth Boe-Celyn i Aberhonddu i gynrychioli rhanbarth Eryri ym mhencampwriaethau Cymru. Mewn ras gystadleuol iawn, llwyddodd Boe-Celyn i orffen yn safle 21ain drwy Gymru gyfan yn oedran genethod bl8 a bl9.

**Dringo**

Yn dilyn cystadleuaeth ddringo lwyddiannus yng Nghanolfan Beacon yn ddiweddar aeth timau dringo bechgyn a merched bl7&8 i gystadlu yn ffeinal Eryri yng Nghanolfan Indie ar Fawrth 19eg. Tîm y genethod oedd Daisy Drage-Ansell (bl7), Robyn Wharton-Griffiths (bl7) a Gwenlli Sanderson (bl8). Yn nhîm y bechgyn oedd Osian Davies,



*Aelodau o'r clwb codio yn cael eu gwobrwyo*

Noa Hughes a Cai Davies (y tri ym mlwyddyn 8!)

Roedd safon y gystadleuaeth yn uchel iawn ond llwyddodd y ddau dîm i ddod yn ôl gyda medalau efydd am gyrraedd y trydydd safle. Da iawn a llongyfarchiadau i bob un ohonoch.

**Rygbi**

Bu'n fore bythgofiadwy i ferched yr ysgol ar fore dydd Iau, Mawrth 15fed wrth iddynt chwarae rygbi a chwrdd â merched a rheolwr tîm Cymru ar gaeau St.Davids College, Llandudno. Roedd dros 150 o enethod o ledled y canolbarth a'r Gogledd wedi mynychu bore o hyfforddi a chwarae, gyda phob un ohonynt yn gobeithio cael cwrdd â rhai o'r enwau adnabyddus ym myd rygbi merched Cymru. Ar ôl cael eu rhannu i grwpiau oedran cawsant chwarae rygbi cyffwrdd gyda thair o chwaraewyr Cymru yn ymuno yng ngêm genethod dan18! Jade Knight, Rebecca De Philipo a Lisa oedd yn gyfrifol am ein grŵp ni. Roedd y tîm dan 15 yn chwarae yn erbyn Ysgol Brynhyfryd, ac er i'r genethod gystadlu am y bêl mewn amgylchiadau anodd, colli gwnaethant i dîm ychydig yn hŷn a chryfach!

## Mynydd Llandygái

**Theta Owen**, Gwêl y Môr, Mynydd Llandygái ☎ 600744

**Gwaeledd**

Mae llawer heb fod yn dda eu hiechyd yn y pentref. Anfonwn ein cofion at bawb, yn cynnwys Mrs. Megan Parry a Mrs. Kath Williams yn yr ysbyty. Dymunwn adferiad buan i chwi.

**Clwb y Mynydd**

Bu aelodau'r clwb am drip i Fron Goch i gael te prynhawn yn ddiweddar. Diolch i Mr. Derfel Owens, Bysus Rhiwlas am ein tywys yno, ac am ei ofal.

**Diolch**

Dymuna Joyce Tong a'r teulu ddiolch o galon i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad. Diolch am yr ymweliadau, y cardiau a'r galwadau ffôn. Diolch hefyd i bawb a gyfrannodd tuag at Sefydliad Prydeinig y Galon, er cof am Gwyneth Williams, Fferm Pen y Bwlch.

**Eglwys St. Ann a St. Mair**

Ebrill 15: Boreol Weddi
Ebrill 22: Cymun Bendigaid
Ebrill 29: 10 y.b. Cymun Bendigaid Eglwys St. Cedol Pentir.
(Yr unig wasanaeth yn y Plwyf y Sul hwn).
Mai 6: Gwasanaeth teuluol
Mai 13: Boreol Weddi

Dechreuir y gwasanaethau, o fis Ebrill ymlaen, am 9.30 y.b. Estynnwn groeso cynnes i bawb ymuno a ni yn ein gwasanaethau.

Gyda diolch i gwmni Mr. John Florence, mae'r fynwent a'r tir o amgylch eglwys St. Ann a St. Mair wedi cael ei dacluso unwaith eto. Buasem yn ddiolchgar pe bae pawb yn ceisio mynd ag unrhyw ysbwriel adref i'w ail-gylchu, yn enwedig unrhyw boteli neu jariau gwydr. Y mae unrhyw wydr yn gallu achosi perygl i'r gweithwyr a'r cyhoedd sy'n ymweld â'r fynwent.

Buasem yn ddiolchgar am unrhyw gyfraniadau tuag at y gost o drin y fynwent neu ymunwch a'r Clwb Cant, drwy law Mrs. Lynda Owen, trysorydd yr Eglwys.

Cofiwn am bawb sy'n sâl ar hyn o bryd ac anfonwn ein cofion cywiraf atoch i gyd.

# Yr Eglwys Unedig

Mae mis arall wedi mynd a dliwn I gael gwasanaethau dealladwy a hyfryd iawn. Anfonwn ein cofion at bawb sydd yn methu bod efo ni yn yr oedfaon. Dymuniadau gorau am wellhad buan i Mair Jones sydd wedi cael triniaeth yn yr ysbyty.

Cafwyd oedfaon arddechog gyda'r Athro Gareth Jones a'r Parchedig Elwyn Richards.

Fore Sul y Blodau, Minnie oedd yn gyfrifol a diolch i Griff a Walter am ei chynorthwyo ac i Menai am gyfeilio.

Bydd yr Ysgol Sul yn dechrau yn ol ar ol gwyliau'r Pasg ac mi fydd y pant yn brysur wrth eu gwaith.

Bu Alwena yn brysur yn paratoi anrhegion i bob un o'r plant ar gyfer y Pasg, diolch yn fawr iddi hi.

**Y Gymdeithas**

Croesawyd pawb I'r cyfarfod gyda Rhiannon ein Llywydd. Cyflwynodd Hogia'r Bonc I'n diddori a'n diddanu yn fawr. Mwynhawyd y noson yn fawr gan bawb. Diolchodd Elfed iddynt ac i ferched y baned sef Ceri oc Olwen.

Llongyfarchiadau blant aelwyd yr Urdd are u llwyddiant yn yr Eisteddfod Sir. Maent yn ymarfer yn y capel a dymunwn bob llwyddiant yn yr Eisteddfod Genedlaethol iddynt.

EGLWYS UNEDIG BETHESDA
LLENWI'R CWPAN

Dewch am sgwrs a phaned.
Bob bore **dydd Iau** rhwng **10.00** o'r gloch a hanner dydd



*Aelodau o'r ddau dîm criced*

# CHWILAIR

## ESGOB WILLIAM MORGAN

| | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| E | A | A | W | F | H | R | I | E | J | L | C | M | B | V | B | H | X | J | U |
| S | I | S | V | S | H | E | I | M | G | V | H | M | D | W | H | U | Z | M | X |
| G | V | A | D | L | L | A | N | E | L | W | Y | D | N | A | P | A | U | Q | U |
| O | ~~G~~ | ~~R~~ | ~~O~~ | ~~E~~ | ~~G~~ | S | O | F | R | P | Y | Q | Z | G | R | H | C | U | M |
| B | W | T | Y | M | A | W | R | W | Y | B | R | N | A | N | T | G | N | O | Y |
| L | R | I | A | S | Z | U | T | F | D | X | U | P | W | R | R | W | H | C | Q |
| L | H | W | E | H | O | Y | E | E | G | E | O | M | H | E | A | Y | P | T | T |
| A | C | B | B | C | U | U | J | P | L | T | M | I | V | V | L | D | D | C | B |
| N | B | F | R | F | O | G | J | V | I | I | R | R | X | I | L | I | M | H | T |
| D | T | O | S | K | O | P | W | R | C | O | M | K | C | B | W | R | O | R | C |
| A | X | V | R | Y | H | S | T | M | N | R | E | F | Y | J | N | D | Z | H | B |
| F | C | W | O | S | C | R | A | H | I | X | N | I | L | X | G | J | N | J | M |
| B | G | W | T | E | X | M | C | N | D | X | K | F | U | P | C | Q | Y | Y | O |
| I | E | L | F | E | R | A | I | Z | Q | R | O | C | T | D | G | W | W | S | L |
| Z | A | E | B | E | M | D | A | J | K | J | C | L | N | L | R | V | S | O | G |
| J | R | P | W | N | A | P | G | S | O | W | J | J | Q | U | L | F | Y | S | V |
| T | B | X | E | L | E | U | G | H | S | L | Z | E | A | F | X | I | R | W | T |
| Z | E | P | L | L | A | N | B | A | D | A | R | N | F | A | W | R | O | H | K |
| V | H | N | A | O | I | T | N | A | S | G | E | L | O | C | A | G | M | B | N |
| K | A | D | S | I | K | O | G | D | H | B | S | I | U | R | O | X | A | G | X |

Yn y chwilair mis yma mae deuddeg peth yn ymwneud a'r ESGOB WILLIAM MORGAN. Mae un cliw wedi ei ddangos yn barod. A oes modd i chwi ddod o hyd i'r gweddill? (Mae LL, CH, DD, TH, acyb yn **un** llythyren yn y Gymraeg, ond i bwrpas y chwilair dangosir hwynt fel dwy lythyren ar wahân).

Atebion gydag enw a chyfeiriad i Andre Lomozik, Zakopane, 7 Rhos y Coed, Bethesda, Bangor, Gwynedd LL57 3NW, erbyn MAI 1af. Bydd gwobr o £10 i'r enw cyntaf allan o'r het. Os na fydd unrhyw un wedi canfod y deuddeg, yna'r rhif agosaf fydd yn cael y wobr.

Dim ond dau gafodd yr atebion cywir i'r chwilair mis diwethaf, er bod nifer fawr ohonoch wedi rhoi cynnig arni, yr ateb a drechodd rhan fwyaf ohonoch oedd O'R SIOP. Esgob William Morgan yw'r testun y mis yma. Cofiwch ei fod yn rhugl mewn nifer o ieithoedd, dyna chi gliw yn barod.

**Dyma atebion Mawrth:** Cofio'r Gorffennol (1980) John Alun Roberts; Crwydro (1982) John Ffrancon Griffith; Dylanwadau (1986) T. Gwynn Jones; Hon Ydyw'r Afon (1979) R. M. Williams; O'r Siop (1973) Glyn Penrhyn Jones; Pesda i Mi (1977) Emrys Edwards; Swyn Cofio (1977) Gwladys Williams; Y Chwarelwr o'r Sowth (1982) Dafydd Roberts. Dyddiadau cyhoeddi'r darlithoedd mewn cronfachau.

**Dyma enwau'r rhai a gafodd yr ateb cywir:** Rosemary Williams, Tregarth; Elizabeth Buckley, Tregarth. **Enillydd Mawrth oedd:** Elizabeth Buckley, 32 Maes Ogwen, Tregarth, LL57 4NG.

I hysbysebu yn **Llais Ogwan, Neville Hughes** 600853

## Marchnad Ogwen

Mae'r croeso arferol yn eich disgwyl ym Marchnad mis Mai – sydd ar y 12fed yn Neuadd Ogwen o 9.30 tan 1 o'r gloch.

Haf Thomas sydd yn cynnal Stondin Elusen mis Mai. Mae Haf wedi casglu miloedd o bunnoedd at achosion da lleol. Mae hi yn creu a gwerthu cardiau cyfarch. Croeso yn ôl Haf. Y mis nesaf sy'n rhydd i'r Stondin Elusen yw Ionawr 2019.

Mae gwybodaeth lawn am y Farchnad ar ein gwefan www.marchnadogwen.co.uk a hefyd ar facebook.

Stondin y Mis – 'Petha' Bach Hud'

Dyna i chi enw hyfryd ar Stondin! Ei pherchennog yw Jo-Jo Elis-Williams. Mae hi yn creu dillad a nwyddau yn arbennig i blant. Dillad chwarae sy'n llawn hwyl ac yn sicr yn annog y plant i ddefnyddio eu dychymyg wrth chwarae. Mae Jo-Jo yn creu'r nwyddau yn ei chartref ym Methesda. Ar hyn o bryd, mae ganddi glogynnau gwisgo dychmygol, ffedogau, bibiau, bagiau a rholyn dal creonau.

Tra yn y Brifysgol ym Mangor, fe gyfarfu â Guto a ddaeth maes o law yn ŵr iddi. Mae ganddynt dri o blant - sy'n sicr yn helpu i greu'r nwyddau hyn! Mae Jo-Jo wedi byw yn Hong Kong, Caergrawnt a New Jersey yn yr Unol Daleithiau.







# Collwyd yn y Rhyfel Mawr

## Ganrif i fis hwn

ER COF
**ROBERT JONES**
milwr cyffredin 266047
A fu farw 3 – 4 – 1918
Yn 34 ml. Oed
Mab Thomas a Elizabeth Jones,
gŵr Elizabeth

**HENRY THOMAS**
Gunner 114597 11th siege Bty.,
Royal Garrison Artillery
A fu farw 4 – 4 – 1918
Yn 26 ml. oed
Mab Robert a Ellen Thomas

**M. WILLIAMS**
milwr cyffredin 32728 1st/4th Bn.,
South Lancashire Regiment
A fu farw 10 – 4 – 1918
Yn 19 ml. oed
Mab Griffith a Jane Williams

**M. WILLIAMS**
milwr cyffredin 32728 1st/4th Bn.,
South Lancashire Regiment
A fu farw 10 – 4 – 1918
Yn 19 ml. oed
Mab Griffith a Jane Williams

**DAVID EVANS**
milwr cyffredin 55275
13th Bn.,
Byddin Frenhinol Ffiwsilwyr Cymreig
A fu farw 22 – 4 – 1918
Yn 23 ml. oed
Mab David a Elizabeth Evans

**H. JONES**
202797 9th Bn., Welsh Regiment
A fu farw 27 – 4 – 1918
Yn 37 ml. oed
Mab Mrs Margaret Jones

(Diolch i Andre Lomozik am ei anfon i'r Llais)

**Apêl**
A fu un o'r bechgyn sydd wedi eu henwi ar y Gofeb ym Methesda yn perthyn i chi? Os oedd, a oes gennych lun ohono? Rwyf yn ceisio rhoi hanes am bob un o'r bechgyn at ei gilydd - enwau'r rhieni, brodyr a chwiorydd, gwragedd, cyfeiriad ayyb. Byddwn yn ddiolchgar iawn o dderbyn llun i'w gynnwys gyda'r hanes. Rwyf wedi derbyn rhai yn barod ac yn wirioneddol ddiolchgar i'r disgynyddion am gyfrannu at y gwaith yma. Cysylltwch â mi os gwelwch yn dda. Andre Lomozik, 7 Rhos-y-Coed, Bethesda. Neu trwy e-bost andrelomozik29@btinternet.com

## Ysgol Llanllechid

**Llongyfarchiadau a Dymuniadau Da**
Llongyfarchwn Mr Huw Edward Jones ar gael ei benodi'n brifathro Ysgol Henblas, Llangristiolus ar Ynys Môn. Mae holl gymuned Ysgol Llanllechid yn hynod ffodus o fod wedi derbyn gwasanaeth arbennig ac unigryw Huw Edward Jones, a hynny ers ugain mlynedd bellach. Daeth Mr Jones i Ysgol Llanllechid fel myfyriwr o Goleg Prifysgol Bangor, a bu'r ysgol yn ffodus i'w apwyntio fel athro i addysgu'r disgyblion hynaf. Datblygodd i fod yn aelod o'r Tim Rheoli, cyn cael ei apwyntio yn Ddirprwy Bennaeth yn 2012. O'r cychwyn cyntaf, gwnaeth ei farc yn yr ysgol; yn boblogaidd gyda'r staff ac yn ysbrydoledig a theg gyda'r disgyblion. Cyflawnodd ei holl ddyletswyddau i safon gyson gadarn, ragorol. Wrth reswm, bydd yn chwith iawn i ni yma yn Ysgol Llanllechid ar ei ôl. Ar ran holl gymuned yr ysgol, diolchwn o waelod calon i Mr Jones, a dymunwn bob llwyddiant a hapusrwydd iddo yn ei waith fel Pennaeth yn ei gylch newydd.

**Croeso**
Estynnwn groeso cynnes i Mr Dafydd Wyn Jones, sy'n athro profiadol, i addysgu ein dosbarth Blwyddyn 6. Croeso cynnes Dafydd!

DAFYDD CADWALADR
Cynhyrchion Coedlannol
Coed Tân - Llwythi bach a mawr
Ysglodion pren i'r ardd
Ffensio a thorri coed
Asiant system gwresogi trwy
losgi coed
01248 605207

BYSUS D. P. OWENS RHIWLAS
01248 361044 a 07771 634195



BYSUS O 25 I 57 SEDD AR GAEL AR GYFER EICH HOLL ANGHENION TEITHIO - TRIPIAU, PRIODASAU, PARTÏON AC ATI.
Bysus Gwyrdd Rhiwlas
GWASANAETH LLEOL, TRADDODIADOL A DIBYNADWY
SEFYDLWYD 1997 PERCHENNOG: DERFEL OWENS

SAMARIAID
Mae
Llinell Gymraeg
0808 164 0123
ar gael bob nos rhwng
7.00pm ac 11.00pm

Ymgymerwr adeiladu a gwaith saer
Ronald Jones
Bron Arfon, Llanllechid
Bethesda
☎ 01248 601052

Pob math o waith trydanol
Huw Jones
Ymgymerwr Trydanol
Trydanwr cymwysedig gyda
phrofiad diwydiannol
Y Wern, Gerlan, Bethesda
Gwynedd LL57 3ST
Ffôn: 01248 602480
07967 541870

# Tregarth

**Olwen Hills (Anti Olwen)**,
44 Bro Syr Ifor, Tregarth
☎ 600192
**Angharad Williams**,
23 Ffordd Tanrhiw, Tregarth
☎ 601544

**Profedigaeth**

*David Ellis Jones*

Cydymdeimlwn gyda Valerie Ellis Jones, ei mab Dewi, a'r holl deulu yn eu profedigaeth o golli David Ellis Jones, Glan y Gors, Tregarth ar Fawrth 12. Dymuna'r teulu ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad a charedigrwydd a ddangoswyd tuag atynt. Fe gollwyd gwt, tad a thaid arbennig iawn. Diolch hefyd am y rhoddion tuag at y nyrsys clefyd y gallon. Diolch I'r Parchedig Gwynfor Williams am y gwasanaeth temiladwy ac i'r organydd D. Wyn Williams ac i Karen a staff Caffi Coed y Brenin am eu lluniaeth ardderchog. Llawer o ddiolch i Gareth a Gwenan Williams am y trefnadau trylwyr a threfnus.

Eric Iolen Williams

Bu farw Eric Iolen Williams, Brynteg, Tregarth, wedi gwaeledd byr ar Fawrth 20 a chydymdeimlwn yn ddwys gyda'i briod Muriel, Dilys ei fam a'r teulu yn eu colled.

Roedd Eric yn 60 oed. Cynhaliwyd gwasanaeth yn Eglwys Santes Fair, Tregarth ac wedyn yn Amlosgfa Bangor ar Fawrth 29. Roedd y ddau wasanaeth yn orlawn. Codwyd swm o arian er cof am Eric a'i rannu rhwng Ambiwlans Awyr, Ymchwil Cancr a Tim Irfon

*Richard Ellis Jones*

Daeth profedigaeth i ran William Hughes, Isallt, Allt Cerrig Llwydion , pan fu farw ei frawd yng nghyfraith Richard Ellis Jones o Benrhosgarnedd, Bangor. Pob cydymdeimlad i chwithau fel teulu.

Cydymdeimlwn hefyd gyda Christine Morris Jones a'r teulu yn Tryfan, Tal y Cae, Tregarth, wedi marwolaeth ei brawd yng nghyfraith Elwyn yn y Bala.

*Joseph Owen*

Joe Royal Oak, Joe Moduron Ogwen. Hoffai'r teulu ddiolch I ffrindiau, cymdogion a gofalwyr cartref am y genfogaeth a gawsom. Diolch hefyd am y cardiau a rhoddion tuag at elusen Ambiwlans Awyr Cymru. Peter, Lynda, Lorraine a Steven.

**Priodas**

Llongyfarchiadau i Bleddyn Hedd Williams ar achlysur hapus ei briodas yn Nant Gwytheyrn gyda Angharad Griffiths. Mae Bleddyn yn fab i Angharad a Gerallt Williams, Ffordd Tanrhiw, Tregarth.

**Ysgoloriaeth**

Llongyfarchiadau gwresog i Buddug Watcyn Roberts, Bryn y Môr, Pen y Ffriddoedd, ar ennill ysgoloriaeth i astudio Cymraeg yng Ngholeg y Brifysgol, Bangor.

**Merched y Wawr Cangen Tregarth**

I ddathlu Gŵyl Ddewi bu'r aelodau yn gwledda ym Mwyty newydd Pot Jam ym Mhorthaethwy, Nos Lun, Mawrth 5. Cafwyd pryd tri cwrs ardderchog a hynny mewn awyrgylch gartrefol braf a Chymreig. Barn pawb oedd fod y bwyd yn werth chweil ac y byddwn yn dychwelyd yno yn unigol a gyda'n teuluoedd yn fuan. Diolch i Nia a'r staff am y croeso a'r wledd.

Bydd y Gangen yn cyfarfod nesa Nos Lun, Ebrill 9, pan gawn groesawu Linda Brown o'r Gerlan atom am noson o hwyl dan y teitl 'Run Sbit. Croeso cynnes i bawb i Festri Capel Shiloh am 7.30 o'r gloch.

**Eglwys y Santes Fair**

*Gwasanaethau*

Ebrill 22ain Cymun Bendigaid
Ebrill 29 Dim gwasanaeth – ar y cyd yn St Cross am 11 yb

Mai 6ed Boreol Weddi
Mai 13eg Cymun Bendigaid
Mai 20fed Boreol Weddi

Pob gwasanaeth am 9.30 yb heblaw am Ebrill 29ain

Cofiwch am ein te bach Dydd Mawrth 24ain Ebril am 2 yp

**Capel Shiloh Tregarth**

Oedfaon yn Shiloh am 5 o'r gloch oni nodir yn wahanol

| | |
|---|---|
| Ebrill 22 | Mererid Mair, Caernarfon |
| Ebrill 29 | Dr. Jennie Hurd, Croesoswallt |
| Mai 6 | Richard Gillion |
| Mai 15 | Oedfa Deulu Cymorth Cristnogol - Gwynfor Williams, Caernarfon |
| Mai 20 | Cledwyn Williams, Bangor |
| Mai 27 | Dafydd Coetmor Williams, Llanllechid |

**Oedfa Deulu Sul y Blodau**

Braf iawn oedd cael croesawu Oedfa Deulu unwaith eto yn ôl yr arferiad yn Shiloh ar Sul y Blodau. Paratowyd y gwasanaeth gan Christine Morris Jones, ond oherwydd amgylchiadau trist o golli ei brawd yng nghyfraith yn y Bala methodd hi a Huw gymeryd rhan eleni. Cydymdeimlwn gyda hi a'r teulu yn eu profedigaeth. Diolch i Gwenno a Iestyn, i Ifan, Myfi a Nel am eu cyfraniad ac yn arbennig i Anna Jên o Elusen Cymorth Cristnogol am ddod atom i sôn am y cefndir i Wythnos Cymorth Cristnogol eleni fydd yn cael ei chynnal yn ystod yr ail wythnos ym Mis Mai. Mae bob amser yn hyfryd cael cwmni a gwasanaeth Anna ac roedd ei neges yn hynod amserol ac yn gwneud i bob un ohonom ddiolch am bopeth sydd gennym a bod yn barod i gyfrannu eto eleni. Cyfeiliwyd gan Wyn Williams, Tyddyn Dicwm, a



Manylion Cyswllt Cynghorwyr Sir Dyffryn Ogwen

Rachub, Carneddi, Gerlan, Braichmelyn
cynghorydd.paulrowlinson@gwynedd.llyw.cymru 01248 605365

Tregarth, Mynydd Llandygái
cynghorydd.dafyddowen@gwynedd.llyw.cymru 01248 605523

Bethesda
cynghorydd.rheinalltpuw@gwynedd.llyw.cymru 07789 742092

Llanllechid, Talybont, Llandygái, Aber, Tyn-y-Maes
cynghorydd.dafyddmeurig@gwynedd.llyw.cymru 07765 400140

@CynghorwyrDyffrynOgwen @PlaidCymruOgwen

MODURON PANDY Cyf.

MOT Diesel a Chatalydd
Atgyweirio MOT
Gwasanaethu Cerbydau
Cydbwyso Teiars
Batris
Tracio

01248 600619

moduronpandy@yahoo.com
www.moduronpandymotors.co.uk

Tregarth, Bangor, Gwynedd LL57 4AY

UNIPART CAR CARE CENTRE

JR SGAFFALDIAU Cyf. SCAFFOLDING Ltd. JR

YR IARD, FFORDD STESION, BETHESDA, GWYNEDD LL57 3NE
ebost: sales@jrscaffolding.co.uk
Ffôn/Ffacs:
01248 601754
07770 568743 (symudol)
CITB

diolchwn iddo yntau am ei gyfraniadau yn y gwasanaethau. Diolch i Sioned Roberts, Fferm Dob, am baratoi y Teisennau Crôg gyda phaned ar ddiwedd y gwasanaeth. Rhannwyd wyau Pasg i'r ieuenctid gan ddiolch iddynt am fod yn barod i gymeryd rhan yn yr oedfa.

Nos Sul, Ebrill 1, yn ystod y gwasanaeth dan ofal ein gweinidog Richard Gillion cawsom gyfle fel cynulleidfa i gydymdeimlo gyda Valerie a Dewi Ellis Jones, Glan y Gors, yn eu profedigaeth fawr o golli priod a thad, sef David Ellis Jones. Bu David yn aelod yma yn Shiloh ers oddeutu tair mlynedd, ers iddo ef a Valerie symud i Glan y Gors o Lanfairpwll. Bu ei angladd yn Shiloh, Dydd Llun, Mawrth 19, dan ofal y Parchedig Gwynfor Williams, Caernarfon ac yna yn yr Amlosgfa ym Mangor. Cofion a phob cydymdeimlad gyda Val, Dewi a'i briod Einir a'r ddwy wyres fach Ela Non ac Anni Cêt.

Llongyfarchiadau i un o hogia Ysgol Sul Shiloh gynt sef Bleddyn Hedd Williams, ar ei briodas yn Nant Gwytheyrn gyda Angharad Griffiths. Pob dymuniad da i'r dyfodol.

Llongyfarchiadau i un arall o gyn aelod o'r Ysgol Sul sef Annest Rawlinson, Llanllechid, a lwyddodd i basio ei phrawf gyrru yn ddiweddar, Pob lwc gyda'r gyrru Annest ac yn dy swydd newydd.

**Drws Agored**

Mae drysau Shiloh ar agor pob bore Gwener o 10 tan 12 o'r gloch ar gyfer sgwrs, paned a chwmni. Cofiwch alw !

**Clwb Cant Canolfan Tregarth**

*Mis Mawrth*

7 Daniel Hadfield £15
30 Muriel Mai Williams £10
45 Dafydd Owen £5

**Pen-blwydd hapus**

Pen-blwydd hapus iawn i Glenda Ellis, Hen Dyrpeg ar ddathlu pen-blwydd arbennig yn ddiweddar. Bu dathlu'r achlysur mewn clwb yn lleol a dymunwn hir oes eto iddi hi ac i Robyn, ei gwr.




**Hywel Williams**
Aelod Seneddol
Etholaeth Arfon

**CYMORTHFEYDD**
Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AS mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa ym Mangor neu yng Nghaernarfon:

**Swyddfa Etholaeth,** 70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR
☎ (01248) 372 948


**Swyddfa Etholaeth,** 8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE
☎ (01286) 672 076

**williamshy@parliament.uk**



***Clwb Camera Dyffryn Ogwen***

**Lleoliad: Cefnfaes, Bethesda**
**7.15pm - 9.30pm**




**Cyfarfod nesaf :** Mai 2


Gweler gwefan y clwb am ragor o wybodaeth a lluniau gan aelodau: **www.dyffrynogwencamera.co.uk**


Dilynwch ni ar trydar
@Llais_Ogwen

**Sesiynau Siarad i Ddysgwyr**

11.00 -12.00, Ail Ddydd Sadwrn bob mis ym Marchnad Ogwen
11.00 -12.00 , 4ydd Dydd Sadwrn bob mis yng Nghaffi Fitzpatrick's

**Am fwy o wybodaeth neu i wirfoddoli yn y sesiynau siarad, cysylltwch â Meleri ar 01248 602131**


**Actorion**: Iwan Charles, Manon Elis, Llyr Evans, Gwenno Elis Hodgkins

**Cyfarwyddwr**: John Glyn Owen

**DAU BERFFORMIAD YN NEUADD OGWEN, BETHESDA.**

**Nos Wener a Nos Sadwrn, Mai 12 a 13 am 7.30yh**

Tocynnau: neuaddogwen.com
NEU Siop Ogwen
**01248 208485**

Mae teulu Doris Morris wedi bod yn ffarmio yn Bryn-Cwd-yr-Arian ers canrifoedd, ond yn dilyn canlyniad y bleidlais Brexit mae Doris druan wedi gorfod arall-gyfeirio. Bellach mae hi'n rhedeg clinig therapiwtig a hafan I bobl gyda bob math o broblemau. A fydd rhedeg busnes o'r fath yn cadw'r blaidd o'r drws? A fydd Doris yn llwyddo I gadw ei hetifeddiaeth? A pa mor iachus ydy 'colonic irrigation' I rywun mewn gwirionedd? - Cawn weld!





**Siân Gwenllian**
Aelod Cynulliad Etholaeth Arfon

**CYMORTHFEYDD**
Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AC mewn cymhorthfa, yna cysylltwch a'r swyddfa ym Mangor neu yng Nghaernarfon

**Swyddfa Etholaeth,** 70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR
(01248) 372948
**Swyddfa Etholaeth,** 8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE
(01286) 672076
Sian.Gwenllian@cynulliad.cymru

## Nant Ffrancon

**Capel Nant y Benglog**
Trefn Oedfaon:
Ebrill 22: Dafydd Iwan.
Ebrill 29: Oedfa yng ngofal Nest.
Mai 6: Parchg. Cledwyn Williams.
Mai 13: Parchg. Endaf W. Jones.

Oedfaon am 2 o'r gloch oni nodir yn wahanol. Croeso cynnes i bawb.

MODURDY FFRYDLAS
Profion M.O.T.
Perchennog
A. Ll. Williams
Stryd Fawr, Bethesda
♦ PROFION M.O.T. ♦
GWASANAETH ♦ ATGYWEIRIO
♦TEIARS A BATRIS♦
GWASANAETH TORRI I LAWR NEU DDAMWAIN
☎ 600723
Ffacs: 605068

Gareth Williams
Trefnydd Angladdau
Crud yr Awel
1 Ffordd Garneddwen
Bethesda
Ffôn: (01248) 600763 a 602707
GWASANAETH DYDD A NOS

CHRIS GRIFFITHS
Trwsio ffenestri upvc, drysau, cloeau, bachau, twll llythyrau ac unedau gwydr wedi chwythu



18 Mill Lodge
Llandegfan
Ynys Môn
LL59 5YB
☎ 01248 713 369 neu 07813 455653

# Balchder Bro Ogwen

Ym mis Mawrth bu gwirfoddolwyr Balchder Bro Ogwen wrthi yn hel sbwriel ym Mron Bethel, Rachub. Trefnwyd y digwyddiad ar ôl i un o drigolion y byngalos nodi bod llawer o sbwriel wedi cael ei chwythu gan y gwynt ac yn cronni wrth y wal ger yr Hen Ysgol. Cawsom fore gwerth chweil gan gasglu 10 llond sach o sbwriel yn ogystal ag eitemau mawr, gan gynnwys nifer o focsys ailgylchu oedd wedi'u malu gan y tywydd.

Cawsom gyfarfod pwyllgor gan drafod y problemau sy'n codi pan fydd gwynt mawr yn malu'r bocsys. Nodwyd bod gan bawb hawl i gysylltu â'r Cyngor Sir a chael cyfarpar casglu gwastraff newydd am ddim. Gellir archebu cartgylchu, yn yr ardaloedd lle mae'r Cyngor yn eu casglu, neu'r hen fath o focsys os oes gennym ormod i'w rhoi yn y cartgylchu. Gellir archebu unrhyw ran o'r cyfarpar ar ei ben ei hun ac felly os yw'r caead wedi'i falu neu ei golli, mae modd archebu caead newydd. Mae hyn yn wir gyda'r biniau eraill hefyd.

Os yw'r gwynt yn broblem, gellir archebu rhwydi i'w gosod ar ben y bocs yn lle'r caead. Byddant yn cadw'r gwastraff i mewn. Ac os ydym yn defnyddio sachau du yn lle'r biniau gwyrdd, gallwn archebu sach hesian er mwyn gwarchod y bagiau bin du rhag cael eu rhwygo gan anifeiliaid.

Gallwn wneud hyn trwy'r ffonio'r Cyngor ar y rhif 01766 771000 ac mae llawer o bobl yn ei chael yn gyfleus mynd ar-lein. Os ewch i www.gwynedd.llyw.cymru/fynghyfrif, gallwch roi eich enw, cyfeiriad a chyfrinair i greu cyfrif ac wedyn gallwch archebu biniau, bagiau ac ati, a dweud wrth y Cyngor am broblem, fel methu casgliad. Gallwch ddefnyddio eich cyfrif hefyd i gysylltu ag adrannau eraill o'r Cyngor, er enghraifft i dalu am brydau ysgol mewn ysgol gynradd neu archebu sesiwn ym Mhlas Ffrancon.

Os oes llawer o sbwriel yn eich ardal chi ac os hoffech chi weld aelodau Balchder Bro yn dod i'w hel, cysylltwch â Paul Rowlinson, ar y rhif (01248) 605365 neu drwy e-bost: paul.rowlinson@trysor.f9.co.uk



*Rhai o wirfoddolwyr Balchder Bro Ogwen yn hel sbwriel ym Mron Bethel, Rachub*

## Pentir

**Cynrig a Carys Hughes**, Rallt Uchaf, Pentir, LL57 4YB.
☎ 01248 601318 E-bost: carys16@hotmail.com

**Eglwys St. Cedol, Pentir**
*Clwb 100 Mis Chwefror 2018*
1af Rhif 37
Ian Russell, Llandegai
2ail Rhif 27
Ann Illsley, Pentir
3ydd Rhif 33
Nia Roberts, Rhiwlas

**Clwb 100 Mis Mawrth 2018**
1af Rhif 11 Gwyn Jones, Llanddeiniolen
2ail Rhif 34
Carol Roberts, Llanberis
3ydd Rhif 27
Ann Illsley, Pentir

**Gwellhad**
Estynnwn ein cofion at y rhai sy'n wael yn eu cartrefi neu mewn cartrefi preswyl, Eira, Mai, Bill, Gwyn a Vic, anfonwn ein cofion cywiraf atoch i gyd.

**Cydymdeimlad**
Anfonwn ein cydymdeimlad at Mrs. Beryl Riley, a'r teulu yn ei phrofedigaeth o golli gŵr, thad a thaid annwyl iawn yn Y Parchedig Gannon Martyn Riley, derbyniwch ein cydymdeimlad dwysaf,

**Genedigaeth**
Llongyfarchiadau i Catrin Williams, Tŷ'r Ysgol, Waun Pentir a'r enedigaeth mab bach, Owi, ar y 9 Mawrth, ŵyr i Alwyn a gor-ŵyr i Mai Williams, Cerrig yr Afon, Y Felinheli.

**Bora Coffi**
Bora Sadwrn y 24 Mawrth cynhaliodd Eglwys St.Cedol Fora Coffi yng Nghanolfan Cefnfaes, Bethesda. Diolch yn fawr i drigolion y fro am eu cefnogaeth

**Hwyl Yr Ŵyl**
Prynhawn Sadwrn y 31 Mawrth - Sadwrn Pasg - cafwyd brynhawn llwyddiannus yn llawn hwyl yn y Ganolfan, Glasinfryn, gyda helfa Pasg ar gyfer y plant , tombola, stondin wyau Pasg, Raffl a gem o Fingo hwyliog a ddaeth a'r prynhawn i ben, Diolch i bawb am eu cefnogaeth.

**Gwasanaethau'r Ŵyl**
Yn ystod yr wythnos Sanctaidd cafwyd amrywiaeth o wasanaethau, gan ddechrau Dydd Iau Cablyd gyda gwasanaeth o olchi traed neu ddwylo, Gwener y Groglith myfyrdodau wrth droed y Groes yna fore Sul y Pasg gwasanaeth y wawr ger Llyn Ogwen am 6.25yb gyda'r wawr yn torri yn odidog dros y Llyn, golygfa fythgofiadwy a dilynwyd gydag offeren y Pasg yn yr Eglwys. Diolchwn i'r Parch. Christina McCrea, a'r gweinidogion Lleyg Martin Lewis a Judith Page am ei harweiniad yn ystod y Gwasanaethau.

**Gwasanaethau'r Sul**
Mae'r Gwasanaethau bob bore Sul am 9.45yb os na nodir yn wahanol, Croeso cynnes i chwi ymuno a ni yn y gwasanaethau:

| | |
|---|---|
| 22.4.18 | Boreol Weddi |
| 29.4.18 | Cymun Bendigaid, Gwasanaeth at y Cyd yn Eglwys St.Cedol am 10yb |
| 6.5.18 | Cymun Bendigaid |
| 13.5.18 | Boreol Weddi. |
| 20.5.18 | Cymun Bendigaid |

J. TEMPLE MORRIS A'I FAB
Pob Math o Waliau Cerrig,
Ffensio, Tarmacio a Thirlunio.
Gwaith gyda peiriant tyrchu bach.
**07770 900531**
**01248 600282**
jtemplemorris@btinternet.com

## Ysgol Pen-y-bryn



Ar Ddydd Iau Mawrth 15fed aeth dosbarth Tryfan i'r Amgueddfa Lechi yn Llanberis i ddysgu am ddiwrnod golchi yn Oes Victoria. Roedd Anti Marged yn brysur iawn yn ei chartref yn golchi i bobl y pentref er mwyn cael arian i fwydo ei theulu - lwcus ein bod wedi mynd i'w helpu!! Cawsom y profiad o olchi'r dillad gyda doli yn y twb golchi, sgwrio'r dillad budr yn y sinc ar y bwrdd sgwrio, ac yna rhoi'r dillad trwy'r mangl i wasgu dŵr allan ohonynt cyn eu rhoi ar y lein i sychu. Rydan ni i gyd yn cytuno bod merched wedi gweithio'n galed iawn ar ddiwrnod golchi yn Oes Victoria.

Mwynhaodd dosbarth Tryfan gymryd rhan ym mhrosiect 'Atgofion ar Gân' gan Gyngor Gwynedd a Chanolfan William Mathias sydd yn defnyddio'r celfyddydau i daclo unigrwydd ymhlith bobl hŷn yn y gymuned. Aeth y dosbarth i Neuadd Ogwen i gyfarfod y genhedlaeth hŷn a chyd-weithio ar weithgareddau cerddorol.

Ar ddydd Mawrth, 20fed o Fawrth bu dosbarth Carnedd yn ymweld ag Oriel Môn. Yno, bu'm yn cael gweithdy inc yn arddull Kyffin Williams. Fe fwynhaodd pob disgybl y dosbarth ac yn wir roedd eu lluniau gorffenedig yn wych! Rydym fel dosbarth wedi cytuno fod paentio gydag inc yn llawer fwy anodd na phaent arferol neu bensil! Byddem yn parhau i efelychu mwy o dechnegau Kyffin yn ein gwersi celf ar ôl y pasg.

**Dilynwch ni ar trydar @Llais_Ogwan**

# Côr y Penrhyn

gan Derfel Roberts

**Ymddiheuro**
Yn gyntaf, ymddiheuriadau na ymddangosodd y golofn hon yn rhifyn Mawrth o Llais Ogwen oherwydd problemau technegol, ond ta waeth, dyma ni yn ôl mis yma!

**Caerdydd**
Ar benwythnos cyntaf gemau rygbi rhyngwladol y chwe gwlad aeth aelodau'r côr i lawr i'r brifddinas i gymryd rhan yn y gweithgareddau ar y maes cyn y gêm rhwng Cymru a'r Alban.

Yn ystod y min nos cyn y gêm cawsom y fraint o gyd-ganu gyda Chôr Meibion Taf yng Nghapel Salem, Treganna, o flaen cynulleidfa fawr. Fel arfer, derbyniodd cyflwyniadau Côr y Penrhyn groeso a chymeradwyaeth eithriadol o wresog. Mae'n deg i ddweud fod perfformiad y côr wedi gwneud argraff ffafriol iawn ar bobl y brifddinas a synnwyd hwy gan ansawdd lleisiol gwych bois y gogledd. Peth arall a wnaeth i'r gynulleidfa ryfeddu oedd amrywiaeth y darnau a'n dull unigryw o gyflwyno rhai caneuon. Roedd y gynulleidfa honno'n cynnwys llawer o bobl y cyfryngau a dangoswyd y perfformiad o 'Gwahoddiad', a ganwyd ar y cyd gyda Chôr Meibion Taf, ar y rhaglen HENO ar S4C.

Gyda'r aelodau'n flinedig ar ôl eu taith hir i'r de a chyngerdd yn dilyn heb gael gorffwys, aeth pawb i'w gwelyau yn lluddedig, ond yn hapus ar ôl rhoi perfformiad arall bythgofiadwy i rai o bobl fwyaf dylanwadol Cymru.

**Cyfraniad gwych**
Mewn llythyr at aelodau Côr y Penrhyn dyma ddywedodd Huw Williams, sy'n gweithio gyda Chwmni Teledu Tinopolis yn Llanelli a chadeirydd Côr Meibion Taf, -

**Annwyl gantorion Côr y Penrhyn,**
Diolch o galon i chi am eich cyfraniad gwych iawn yn ein cyngerdd yng Nghapel Salem. Dwi wedi cael ymateb arbennig gan sawl aelod o'r gynulleidfa. Hefyd yn y gwaith yn Tinopolis lle mae HENO yn cael ei gynhyrchu, roedd sawl person yn canmol y "sain" oedd yn cael ei greu.

Mae'r perfformiad o "Gwahoddiad " wedi cael ei weld (sef pobol yn dewis gwylio trwy glicio) dros 10,000 o weithiau ar safle Heno. Felly, cynulleidfa ehangach wedi cael gweld a chlywed y ddau gôr. Gobeithio y cawn gyd ganu eto'n fuan a'ch bod chithau wedi mwynhau eich taith i'r de.

Hwyl fawr i chi am weddill y flwyddyn.
Yn gywir iawn,
Huw Williams (Cadeirydd Côr Meibion Taf)

**Bore'r Gêm**
Ar fore Sadwrn y 10fed o Chwefror, wedi gadael y gwesty ym Magwyr, Gwent, aeth yr aelodau yn eu holau i Gaerdydd. Hebryngwyd ni i mewn i Stadiwm y Principality a chawsom gyfarfod ag aelodau Côr Meibion Blaenafon a'r Dr Haydn James, yr arweinydd byd-enwog o Lundain. Roedd y côr o Flaenafon, Gwent yn cyd-ganu â ni ar y maes ond Côr y Penrhyn gafodd yr anrhydedd o fynd i ganu i chwaraewyr yr Alban a Chymru fel roedden nhw'n dod oddi ar y bysiau yng nghrombil y stadiwm. Canwyd 'Calon Lân' i chwaraewyr Cymru a 'Loch Lomond' i chwaraewyr yr Alban. Yn y stadiwm a thu allan gwisgodd yr aelodau gotiau cynnes a gyflwynwyd i Gôr y Penrhyn gan berchnogion y Wifren Wib (Zip World) gyda logo'r cwmni ac enw'r côr arnynt. Bydd hyn yn gymorth i'r côr ledaenu gwybodaeth am Ddyffryn Ogwen a'i adnoddau i bedwar ban a hoffai'r pwyllgor ddiolch i Zip World am eu cefnogaeth.

Roedd cael sefyll mor agos i arwyr y maes chwarae yn creu cryn gynnwrf ymhlith rhai aelodau o'r côr. Dywedodd Michael Williams o blith y tenoriaid cyntaf, "Dwi'n teimlo fy mod i ym mhresenoldeb meistri'r bêl hirgron a dwi am geisio llofnod rhai ohonyn nhw cyn mynd oddi yma."



*Henryd Jones (Tenor 1) a Derek Griffiths (Tenor 2) yn y stadiwm cyn y gêm.*

Roedd Walter Williams o'r ail denoriaid dan gryn deimlad hefyd ac meddai, " Fel Cymro twymgalon mae cael bod yn rhan o amgylchiad cenedlaethol Cymreig yn cynhesu calon dyn, ac yn dangos i'r byd ein bod yn genedl falch ac annibynnol."

Ar y maes canodd y ddau gôr nifer o donau cyfarwydd megis 'Delilah' (Tom Jones), 'Tydi a Roddaist' (T. Rowland Hughes) 'Flower of Scotland' (Roy Williamson) a 'Sosban Fach' (Traddodiadol) cyn canu anthemau'r ddwy wlad i gychwyn y chwarae. Mae'n wir i ddweud bod canu Côr y Penrhyn ar y diwrnod wedi symbylu tîm cenedlaethol Cymru i roi crasfa i'r Albanwyr, gan i Gymru guro o 34 - 7.

**I ddod**
Un o'r prosiectau mae'r côr yn bwriadu ymgymryd ag ef yn y dyfodol agos yw prosiect o'r enw 'Hiraeth'. Bwriad y prosiect yw defnyddio technoleg megis ffilm gefndir fydd yn ymddangos y tu ôl i'r côr mewn perfformiadau. Bydd y rhaglen a gyflwynir yn gweddu i'r hyn a welir ar y ffilm a bydd yn cynnwys golygfeydd fydd yn amlygu hanes, daearyddiaeth a diwylliant ardal Dyffryn Ogwen. Fe arbrofwyd gyda hynny ddwy flynedd yn ôl yn America pan aeth y côr i Washington, Efrog Newydd a Cholumbus, Ohio yn ystod dathliadau Cymry Gogledd America. Mae'r prosiect yn gobeithio denu nawdd o wahanol ffynonellau a byddwn yn gallu cyhoeddi mwy o wybodaeth amdano yn y man.

CD newydd

Mae'r côr hefyd yn bwriadu cyhoeddi CD newydd. Cafwyd llwyddiant ysgubol gyda'r CD ddiwethaf a hyderwn y bydd miloedd yn prynu'r un newydd hefyd pan gyhoeddir hi.



Contractwyr Trydanol
**Jones & Whitehead** Cyf
Swyddfa Gofrestredig
Penrala, Tregarth, Bangor, Gwynedd, LL57 4AU
Ffôn: 01248 601257
Ffacs: 01248 601982
E-bost: info@jonesandwhitehead.co.uk

# Cymeriadau'r Côr



1. Be' ydy dy enw llawn? Emyr Roberts
2. Oed? – 64
3. Gwaith – Wedi ymddeol.
4. Lle wyt ti'n byw? – Bethesda.
5. Un o le wyt ti'n wreiddiol? - Cefais fy magu yn Nhŷ'n y Maes, Dyffryn Ogwen..
6. Pa dri pheth fasai'n dy ddisgrifio orau? – Caiff eraill roi eu barn am hyn.
7. Ers faint wyt ti'n aelod o'r côr? – Mis Medi 2016.
8. Pa lais wyt ti? – Ail denor.
9. Pam wnest ti ymuno â Chôr y Penrhyn? – Cefais fy annog i ymuno gan Walter Williams. Dilyniant oedd hynny gan i mi fwynhau bod yn aelod o Gôr y Dyffryn am nifer o flynyddoedd gan gymryd rhan yn y Gwasanaeth Cymunedol dros gyfnod y Nadolig.
10. Pa un ydy dy hoff gân yn rhaglen y côr? – 'Heriwn, Wynebwn y Wawr.' Hoffwn ychwanegu fy mod wedi mwynhau a gwerthfawrogi dysgu 'Flower of Scotland' ar gyfer taith y côr i'r gêm rygbi rhyngwladol yn ddiweddar. Mae'n anthem genedlaethol rymus iawn.
11. Pwy ydy dy hoff ganwr/gantores? – Bryn Fôn.
12. Beth ydy dy farn di am ganu pop? – Pawb at y peth y bo.
13. Oes gen ti atgof am ryw ymweliad efo'r Côr? – Braint ac anrhydedd oedd cael canu ar y maes yn Stadiwm y Principality pan heriodd Cymru yr Alban ychydig wythnosau'n ôl.
14. Pa ddiddordebau eraill sy gen ti y tu allan i'r côr? – Chwaraeon, cerdded, teithio, diddori'r wyresau a'r wyrion, a darllen, yn arbennig y papur dyddiol.
15. Oes yna rywbeth faset ti'n hoffi gweld y côr yn ei wneud? - Dal ati i ddatblygu a chadw'r traddodiad o ganu i fynd.

Cofiwch gefnogi ein hysbysebwyr

# Braichmelyn

**Rhiannon Ifans**, Glanaber, Pant, Bethesda ☎ 600689

Dymunwn yn dda i Cara Bullock wrth iddi ddechrau a rei gyrfa fel nyrs. Pobl lwc i ti Cara

Trist yw cyhoeddi colli ein ardalwr hynaf sef Mrs Eirlys Jones, 4 Braichmelyn ar ol salwch. Rhagflaenwyd hi gan ei gwr John rai blynyddoedd yn ôl. Person hoffus iawn oedd Eirlys a pharod ei gwen bob amser ac yn un dda efo gwaith llaw erioed. Fe welir ei cholli yn fawr yn enwedig gan ei dau nai David Alun a Brian a'u teuluoedd.

Cafodd Mrs Nita Jones driniaeth yn yr ysbyty ac mae'n braf cael dweud ei bod wedi gwella erbyn hyn.

# Eisiau ynni rhad, gwyrdd a lleol?

Mae cyfnod peilot cynllun Ynni Lleol wedi bod yn hynod llwyddiannus, ac rydym bellach yn chwilio am fwy o gartrefi ym Methesda, Tregarth, Rachub a Mynydd Llandygai i ymuno. Grŵp cydweithredol ydi Ynni Lleol Bethesda, a thrwy fod yn rhan, bydd

- prisiau trydan i gartrefi yn is
- ynni yn dod o gynllun hydro lleol sy'n cael pris gwell am y trydan maen nhw'n ei werthu
- arian yn aros yn y gymuned
- arian hefyd ar gyfer prosiectau lleol eraill

Os oes gennych chi ddiddordeb i gael gwybod rhagor am y cynllun cyffrous hwn, dowch i siarad efo ni ym Marchnad Ogwen Ebrill 14 a Mai 12.

Neu cewch fynegi eich diddordeb ar wefan www.energylocal.org.uk

DEFNYDDIO YNNI LLEOL
TALU LLAI AM DRYDAN
Ynni Lleol
**Oes gennych chi ddiddordeb mewn prynu trydan rhatach, cynaliadwy, gyda'r elw yn cefnogi economi lleol Dyffryn Ogwen?**
Ar ôl llwyddiant ein treial cyntaf, rydym nawr yn chwilio am fwy o gartrefi dros ardal Bethesda, Tregarth a Mynydd Llandygai i ymuno a'r cynllun.
Am fwy o wybodaeth ac i siarad ag un o'r tîm, ymunwch â ni ym Marchnad Ogwen mis Ebrill a Mai.
**Ymunwch â'r clwb – ewch i wefan www.energylocal.org.uk i fynegi diddordeb**

# Llandygái

**Iona Wyn Jones,** Dyma Fo, 16 Pentref, Llandygái, Bangor LL57 4HU
☎ 01248 354280
**Eirlys Edwards,** Sŵn y Coed, 23 Pentref Llandygái, Bangor LL57 4HU
☎ 01248 351633

**Eglwys Sant Tegai, Llandygai**

*Pererindod Malta*

Roedd cyfle i blwyfolion Bro Ogwen rannu profiad pererindod mis Chwefror mewn gwasanaeth arbennig ar nos Sul Ebrill 8fed yn Ysgoldy St Cross am 7.00 drwy gyflwyniad gweledol a myfyrdodau. Gohiriwyd y gwasanaeth gwreiddiol oherwydd tywydd garw.

*Festri Pasg 2018*

Cynhaliwyd Cyfarfod Blynyddol Eglwys St Tegai ar Ebrill 8fed am 12.15 h.y. yn syth ar ôl y gwasanaeth arferol. Ail-etholwyd Edmond Douglas Pennant fel Warden y Bobl a Thrysorydd, Ann E. Williams fel Warden y Ficer a Nerys Jones fel Ysgrifenyddes. Bu cyfle i Warden y Ficer ddiolch i'r Parchedig John Matthews a Mrs Sue Matthews am eu gwaith called yn ystod y flwyddyn.

*Gweithgareddau'r Pasg*

Braf oedd cael tywydd bendigedig ar fore Gwener y Groglith ar gyfer Orymdaith y Groes o St Tegai i Eglwys St Cross. Cafwyd cyfle i aros wrth sawl safle i weddïo dros wahanol agweddau o fywyd y plwyfi.

Addurnwyd yr eglwys yn y prynhawn ar gyfer Sul y Pasg. Diolch yn fawr i Hazel ac i Nerys am arwain Avril, Anne, Ann a Rhian yn eu hymdrechion i baratoi'r adeilad ar gyfer uchafbwynt y flwyddyn Gristnogol. Gweinyddwyd Offeren y Pasg gan y Parchedig John Matthews gyda chymorth Martyn a Rhian. Darllenwyr y llithoedd oedd Edmond Douglas Pennant a Huw Llewelyn Jones.

*Helfa Chwilen*

Diolch i Liz Bestwick am drefnu Helfa Chwilen yn Neuadd Talgai ar nos Fawrth Ebrill 10fed a diolch i'n holl gefnogwyr. Noson hwyliog fel arfer!

*Cydymdeimlad*

Mae'r gynulleidfa yn gyrru cydymdeimlad i deulu'r diweddar Leslie Foulkes o'r pentref. Bydd colled ar ôl un o drigolion gwreiddiol Llandygai.

*Dyddiadau i'w cofnodi!*

Bydd diwrnod ein nawddsant St Tegai yn cael ei ddathlu ar Fehefin 5ed eto eleni. Mae'r Sul blaenorol yn gyfle i aelodau'r eglwys ac i ffrindiau sydd gyda chysylltiadau personol â phentref Llandygai gynnig rhodd arian tuag at gostau cynyddol rhedeg yr eglwys, cynnal y fynwent ac atgyweirio ein hadeilad hanesyddol. Derbynnir yn ddiolchgar unrhyw roddion yn daladwy i "Sant Tegai, Llandygai" trwy law'r Ficer, y Parch John Matthews, Y Ficerdy Pentir, Bangor.

Bydd yr Arddwest boblogaidd yma ar ddydd Sadwrn Gorffennaf 14eg 2018. Mae digon o amser gennych i gasglu cyfraniadau i stondinau amrywiol - anrhegion a nwyddau bychain newydd yn dderbyniol iawn! Mae Nerys, Ann a Rhian yn ddiolchgar iawn i dderbyn unrhyw gyfraniad.

*Gwasanaethau Sant Tegai*

Y drefn arferol yn y mis yw:
Gwasanaethau'r Sul cyntaf a'r pedwerydd Sul yn y mis am 9.30 yb.

Gwasanaethau ar yr ail a'r trydydd Sul yn y mis am 11 y.b.

**Y Diweddar Mr Leslie Foulkes**

Gyda thristwch, clywsom am farwolaeth Mr Les Foulkes Rhif 15 o'r pentref, ar y 6ed o Fawrth yn Ysbyty Gwynedd ar ôl salwch diflas. Ganwyd Les yn Llandygai 1937 yn unig blentyn i Rachel a John Foulkes. Mynychodd yr ysgol bentref, ag yna Uwchradd ym Mangor. Ar ôl ymadael, aeth i'r fyddin, ag yna yn ôl i'r ardal fel 'Postman'. Gweithiodd ei hun i fyny i fod yn Inspector nes iddo ymddeol. Roedd Les yn ddyn ei filltir sgwâr, cymeriad tawel a chyfeillgar, ac wrth ei fodd yn cymdeithasu yn achlysurol yn y pentre, pan fyddai yn son am hanesion diddorol Llandygai. Roedd ganddo gof anhygoel, yn hoff iawn o'i ardd, ac fe fydd colled fawr o'i weld yn cerdded o gwmpas y pentref. Claddwyd ef yn fynwent St Cross, Talybont.

**Noson Cawl a Chan**

Ar ôl gorfod ail drefnu'r noson oherwydd eira a rhew. Cafwyd noson ddifyr iawn, a chefnogaeth dda yn y Clwb Rygbi ar y 24ain, gyda Hogia'r Bonc yn hwyliog iawn yn ein diddanu. Hoffai Iona ddiolch i'r Hogia, Sandra o'r Clwb, ag i bawb am y gefnogaeth. Gwnaed elw o £1,010 at Gyfeillion Ysbyty Gwynedd.

## Ysgol Llandygai

*Llwyddiant yn Eisteddfod yr Urdd*

Yn dilyn llwyddiant yn Eisteddfodau Cylch yr Urdd aethom ymlaen i gystadlu yn yr Eisteddfodau Sir gyda'n grŵp cerddoriaeth greadigol yn ogystal â gyda llawer o waith Celf a Chrefft. Braf yw cael cyhoeddi bydd y grŵp Cerddoriaeth Greadigol yn mynd ymlaen i Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yn Llanelwedd yn ogystal â gwaith celf Freya, Sophie a Nel! Mae pawb wedi cyffroi am deithio i lawr i'r Eisteddfod ac yn ddiolchgar iawn i'r rheini sydd eisoes yn brysur yn casglu arian tuag at yr achos.

*Bake Off*

Pe tasech wedi galw heibio'r ysgol cyn y Pasg buasech wedi gweld gwledd o gacennau yn eich disgwyl. Cynhaliodd Cymdeithas Rhieni ac Athrawon yr ysgol gystadleuaeth pobi cacennau Pasg. Heb os nac oni bai mae cogyddion dawnus ymysg plant yr ysgol ac wrth werthu'r cacennau llwyddwyd i godi llawer o arian tuag at offer coginio i'w ddefnyddio yn yr ysgol. Diolch i bawb fu'n rhan o'r diwrnod.





*Gweithdy Lego Mindstorm*
Mae gan yr ysgol berthynas agos gyda nifer o ysgolion eraill yn y dalgylch. Braf felly oedd i rai o'r plant gael cyfle i ymweld ag Ysgol Rhiwlas i gydweithio ar brosiect arbennig iawn. Mae Ysgol Rhiwlas wedi sicrhau grant ar gyfer prynu offer cyfrifiadurol newydd i ysgolion y dalgylch ac o ganlyniad i hyn aeth arweinwyr digidol yn ysgol yno i ddysgu sut i'w ddefnyddio. Cafodd y pedwar amser gwych yn dysgu sut i ddefnyddio'r cit Lego Mindstorm. Y cam nesaf fydd i'r arweinwyr digidol ddysgu plant eraill yr ysgol sut i'w ddefnyddio - amser cyffrous yn wir.

*Cyngor Ysgol – llyfrau*
Mae'r Cyngor Ysgol yn bendant yn rhan allweddol o ddigwyddiadau yn yr ysgol felly pan ddaeth yn amser archebu llyfrau newydd pwy well i ofyn iddynt na'r Cyngor Ysgol. Bu cynrychiolwyr o bob dosbarth yn meddwl yn ofalus cyn dewis amrywiaeth o lyfrau Cymraeg newydd. Mae pawb yn edrych ymlaen nawr i gael darllen y llyfrau newydd.

*Wild Elements*
Yn dilyn y tywydd oer yn ddiweddar aeth dosbarth Tryfan ar ymweliad i Erddi Botaneg Treborth i ddechrau prosiect diddorol. Bwriad y diwrnod oedd i ddysgu am y bywyd gwyllt sydd i'w weld yno yn ystod y gaeaf - yn bendant daethom o hyd i fwy na'r disgwyl a hynny yn y goedwig, yn y pwll dwr ac wrth wylio adar. Bwriad y prosiect yw bydd y plant yn dychwelyd yno yn ystod y Gwanwyn ac yn yr Haf i weld y newid sydd mewn cynefin yn ystod y tymhorau gwahanol. Tro dosbarth Ogwen fydd hi i fynd nesaf ac mae pawb yn edrych ymlaen yn eiddgar i weld pa newidiadau fydd wedi digwydd. Diolch i griw Elfennau Gwyllt am arwain y dydd.

## Rhiwlas

**Iona Jones**, 17 Bro Rhiwen, Rhiwlas
☎ 01248 355336

**Cydymdeimlo**
Yn ddiweddar bu farw'r Canon Martin Riley, Hafod Lon ac anfonwn ein Cofion at ei briod a'r plant a'u teuluoedd hwythau. Bu'r angladd yn y Gadeirlan ac i ddilyn yn yr Amlosgfa. Derbynwyd arian tuag at achosion da gan gynnwys Apêl Diffribiliwr y pentref a llawer o ddiolch am hyn.

Yn yr un modd cydymdeimlwn â Ken a Mari Thomas a Sion, Uwch Mynydd, Cae Glas yn eu profedigaeth hwythau. Bu farw brawd Mari yn 62 mlwydd oed ac rydym yn cydymdeimlo â chi fel teulu.

**Merched y Wawr**
**Cyfarfod** *Mis Mawrth*
Derbynwyd ymddiheuriadau oddi wrth y canlynol: Annes, Dilys, Jini, Rhiannon ac Elina.
Newyddion o'r Rhanbarth:: Angen dewis Swyddogion Cenedlaethol, manylion am ginio'r Llywydd yn y gogledd, gwybodaeth am gystadlaethau yn yr Ŵyl Haf a hefyd an y cinio i anrhydeddu y Llywydd Cenedlaethol newydd, Meirwen Lloyd a gangen Llanrug.
Anfonwyd ein cofion hefyd at rai o'n haelodau sy heb fod yn dda yn ddiweddar.

Llywydd y noson oedd Gwenno a hi a gyflwynodd ein gwraig wadd, Manon Ogwen Williams, hyn yn addas iawn gan fod Gwenno wedi ei hadnabod ers pan oedd yn blentyn. Swydd Manon yw metron unedau canser Gogledd Cymru ac ymddengys ei bod eisiau bod yn nyrs ers yn ifanc iawn ac yn dilyn ôl troed ei nain a oedd yn fydwraig.

Doedd y 6ed dosbarth ddim yn apelio ac fe ddechreuodd yn Ysbyty Môn ac Arfon fel Nyrs Gadet a dechrau ei chwrs nyrsio yn 1984 ac yn un o'r criw cyntaf i gychwyn eu hyfforddiant yn Ysbyty Gwynedd. Mwynhaodd bob lleoliad ac yr un olaf oedd yn y Ward Alaw wreiddiol ac yno y dymunodd aros a chael ei hapwyntio yn brif nyrs yn 1993.


Cafwyd Uned Alaw newydd yn 1999 a chael ei phenodi yn uwch nyrs yn 2003. Roedd ei brwdfrydedd tuag at ei gwaith yn amlwg a diiolchwyd iddi ar ein rhan gan Gwenno, cawsom noson hynod o ddiddorol

**Penblwydd arbennig**
Dathlodd Glenys Jones, Bron y Waun benblwydd arbennig yn ddiweddar. Mae wedi rhoi gwasanaeth clodwiw i'r rhai sy'n gaeth i'r tŷ gan ymweld â hwy i drin eu gwallt Llongyfarchiadau a dwi'n siwr ichi gael gwyl ar y dathlu.

**Clwb Rhiwen**
Bu'n rhaid gohirio ein cyfarfod i ddathlu Gŵyl Ddewi oherwydd y tywydd ac yng nghyfarfod Mawrth 14 cawsom gwis wedi'i drefnu gan Jean a Frances. Mae;r ddwy fel arfer yn pararoi cwestiynau difyr inni a rhai yn eithaf heriol! Yn y cyfarfod olaf o'r tymor yma cawsom sesiwn o gemau bwrdd a dolch i Jean a Frances am baratoi y lluniaeth inni yn y ddau gyfarfod.

**Genedigaeth**
Llongyfarchiadau i Catrin, Ty'r Ysgol ar enedigaeth mab bach a chroeso mawr i Owi Bryn. Sylwer ar lythrennau cyntaf ei. enw, O B fel ei hen daid a dwi'n siwr fod taid Alwyn a gwedill y teulu wedi dotio hefyd.

**Edrych ymlaen**
Dwi'n siwr fod llawer ohonoch, fel finnau yn edrych ymlaen i'r Gwanwyn gan obeithio y cawn dywydd gwell. Bu'n aeaf hir ac oer a chawsom wynt, glaw,rhew ac eira a'r plant wrth eu bodd gyda'r olaf a rhai yn cael gwneud dyn eira am y tro cyntaf. Anfonwn ein cofion at y rhai na fu'n teimlo'n dda dros y cyfnod yma, gobeithio eich bod i gyd yn gwella.



**Priodas Ddeiamwnt**
Ar Chwefror 22ain dathlodd John Huw a Heulwen drigain mlynedd o fywyd priodasol. Llongyfarchiadau a chofion at y ddau ohonoch. Gobeithio eich bod yn gwella Heulwen ar ôl y fflw. Dyma lun o'r ddau ar y diwrnod hapus.

**Londis Bethesda**

☎ 01248 605566
Archfarchnad hwylus
Gwasanaeth personol
gyda'r pwyslais ar y cwsmer
Tocynnau Loteri, cardiau a biliau trydan a nwy
Peiriant codi arian di-dâl
Ar agor 7.00 y bore tan 10.00 yr hwyr
7 diwrnod yr wythnos

**Malinda Hayward**
**(Gwniadwraig)**
Awel Deg
Penygroes, Tregarth.
Am unrhyw waith gwnïo
- trwsio, altro ac ati -
Ffoniwch
01248 601164

Sefydlwyd 1969
**m.hughes a'i fab**
CONTRACTWYR TOI
Bryn Myfyr, Allt Pen y Bryn, Bethesda
☎ 600633
☎ (symudol) 07702 583765
*Arbenigo mewn gwaith ffelt a pitsio.*
*Hefyd toeau llechi a gwaith yswiriant.*
*Gadewch i ni gynnig pris rhesymol am waith diguro.*

**Cerbydau Penrhyn**
CABIAU A BYSIAU MINI
Ffôn: (01248) 600072
Meysydd awyr ♦ Porthladdoedd
Contractau
Contractwyr i Wasanaeth
Ambiwlans Gogledd Cymru

*Owen's* Tregarth
Cerbydau 4, 8 ac 16 sedd
*Arbenigo mewn meysydd awyr Cludiant Preifat a Bws Mini*

01248 60 22 60 | 07761 619 475
www.owenswales.co.uk

# Talybont

**Neville Hughes**, 14 Pant, Bethesda
☎ 600853
Barbara Jones, 1 Dol Helyg, Talybont
☎ 353500

**Yr Hardd a'r Hyll**

Mae'r cennin pedr a'r briallu bendigedig o gwmpas Talybont yn ein hatgoffa nad yw'r Gwanwyn yn bell, er gwaethaf y tywydd anhymorol diweddar! Rydym mor ffodus i fyw mewn dyffryn mor dlws. Biti garw nad yw pawb yn ei werthfawrogi, na'i barchu. Cafodd Cynghorydd weithgar dipyn o sioc y diwrnod o'r blaen, wrth iddi gael hyd i lond bag plastig o glytiau babi budron y tu ôl i garreg fedd yng nghanol Mynwent Capel Bethlehem. Rhyfedd o fyd, ynte ! Mae cynnydd, hefyd, wedi bod yn y cwpannau mawr MacDonalds, efo'u caeadau a'u gwellt plastig, sy'n cael eu taflu ar y lôn yng Nghae Gwigin, tua pum llath o'r bin pwrpasol!

Pam, deudwch?

Problem arall sydd ar gynnydd, yn anffodus, yw baw ci ar y pafinoedd - y perchnogion yw'r broblem, dybiwn, nid y cŵn !

Beth am inni i gyd , yn blant ac oedolion, wneud pob peth y gallwn i gadw'n pentref mor dwt â phosibl, yn yr oes daflu popeth i ffwrdd yr ydym yn rhan ohoni ?

**Diolch**

Mae Meic 51. Bro Emrys, yn teimlo'n well o lawer erbyn hyn, ar ôl y driniaeth fawr a gafodd yn Ysbyty Lerpwl, ac wedi dechrau codi allan. Mae Einir ac yntau'n dymuno diolch i bawb am y gefnogaeth a gawsant ar adeg annifyr iawn yn eu hanes.

**Priodas Ruddem**

Mae Jane a Frank, Tŷ Mawr, wedi dathlu eu Priodas Ruddem yn ddiweddar.
Estynwn longyfarchiadau a dymuniadau da iddynt am flynyddoedd eto o iechyd da ac hapusrwydd gyda'i gilydd.

**Ysbyty**

Mae Jean, 3. Talybont, yn ôl yn Ysbyty Gwynedd unwaith eto.
Brysia wella, Jean ! Mae'r Gwanwyn ar y ffordd, a gwyddom dy fod yn ysu i fynd allan i'r ardd.

**Gyrru**

Er nad oes neb wedi rhoi'r un enw inni'n 'swyddogol', gwyddom fod ambell un o bobl ifainc y pentref wedi pasio ei brawf/ phrawf gyrru yn ddiweddar. Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau am oes o yrru'n ddiogel i bob un ohonynt. Hwyrach mai'r peth pwysica i gofio yw mai peiriant sy'n gallu lladd ar amrantiad yw car, a ninnau , fel gyrrwyr, yn gyfrifol amdano.

**Profiad annifyr**

Yr wythnos ddiwethaf, deffrôdd Lis, 2. Min Ogwen, am 4 o'r gloch y bore, a chlywed oglau llosgi mawr rywle o gwmpas y tŷ a'r ardd. Ni fu'r Cwmni Trydan fawr o dro yn anfon tair fan a Jac Codi Baw i geisio datrys y broblem, a chyn bo hir, sicrhawyd mai ceblau o dan y ddaear oedd wedi mynd ar dân. Yn ffodus i Lis, a'i chymdogion agosaf, ni chafodd neb niwed.

**Eglwys St. Cross**

*Gweithgareddau*

Yn ystod mis Mawrth, cynhaliwyd Noson Caws a Gwin yn Ysgoldy Maes-y-Groes. Roedd yr achlysur yn hwyliog a'r Ysgoldy yn weddol llawn, a chawsom fwynhau gwledd o bob math o gaws gwahanol ynghyd â chwmni difyr. Diolch o galon i Cora a Howard am drefnu'r noson ac am gynnwys ticed raffl yn y tâl mynediad.

Bore Coffi misol ar y dydd Mawrth cyntaf yn y mis am 10.30. Bydd y Bore Coffi ar Fai 1af dan ofal y Ficar, y Parchedig John Matthews, a Mrs Sue Matthews. Byddwn yn siwr o gael hwyl yn eu cwmni!

*Gwasanaethau*

Cynhelir y gwasanaethau wythnosol fel yr arfer: y Sul 1af a'r 4ydd Sul bob mis am 11 o'r gloch; yr 2il a'r 3ydd Sul am 9.45 y bore. Edrychwn ymlaen at gael croesawuein brodyr a chwioryddd o'r eglwysi eraill yn y grŵp i St Cross ar y 5ed Sul mis yma, Ebrill 29ain am 11 o'r gloch.

**Capel Bethlehem**

*Oedfaon*

Ebrill 22: Gweinidog; Ebrill 29: Parchg. Eifion Wyn Williams, Llanfairfechan; Mai 6: Parchg. Harri Parri;
Mai 13: Gweinidog; Mai 20: Cau – Cymanfa Ysgolion Sul yn Emaus, Bangor, am 10.30yb. Oedfaon am 2 o'r gloch. Croeso cynnes i bawb.

*Cydymdeimlad*

Rydym fel eglwys, yn cydymdeimlo'n ddwys á'n gweinidog, y Parchedig John Pritchard, yn y brofedigaeth fawr a ddaeth i'w ran gyda marwolaeth ei annwyl briod, Falmai. Cofiwn hefyd am y teulu oll yn eu colled a'u hiraeth!


*Croesawu a diolch*

Braf oedd medru croesawu ein cyn weinidog, y Parchg. Geraint Hughes, i gynnal oedfa ym Methlehem ar brynhawn Sul, 25 Mawrth. Diolch iddo am ddod atom ar fyr rybudd.

*Ysbyty*

Dymunwn wellhad buan i Mrs. Eirlys Ellis, Bro Emrys, yn dilyn llaw-driniaeth yn ddiweddar.

# Croesair Llais Ogwan



**AR DRAWS**

1 Gwendid Pedr (5)
4 Gorffen galw yn y cwm cyn ei ddatgymalu (5)
7 Medrus (3)
8 Nid Ifan a'i ddinistriodd (4)
9 Dyma beth ydwyf – rwyf yn feddw (4)
11 Fel haul crasboeth (7)
13 Diod o de (5)
14 Yma daw'r cywion i'r byd (6)
15 Wedi f'aruthrol gywilydd, mae'n wir ddrwg gen i (6)
19 I wahanu'r mân a'r mwy (5)
21 Un a aned ym Mangor efallai (7)
22 Tras (4)
23 Dod i gael llymaid (4)
25 "Dau yn unig oedd yn y ---, Sammy Rose Bank a Ned Tŷ Glas" *(TRH)* (3)
26 Hy ! gwawdio a gwatwar (5)
27 Heb ffys na ffwdan (2,3)

**I LAWR**

1 Swnio fel un sy'n gweithio i'w dad, ac yn gymeriad lefel iawn (7)
2 Crefft y bensil (7)
3 Y Crynwr yn cael ceirch i frecwast (3)
4 Sefyll (6)
5 Pan wneir jam efo'r ffrwythau duon neu gochion, ma fo'n flasus iawn (5)
6 "---- y Llyfrau Gleision" 1847 (4)
10 Dewis, hwn neu hwn (6)
12 Enfawr (6)
16 Yn ei gyfnod a'i iawn bryd (7)
17 Yn ei ddolur briwiedig y mae'r Aelod Seneddol, ond y mae'n dal yn fonheddig (7)
18 Rhoi cylch wrth droed y bachgen i weld os yw'n gwywo (6)
19 Heb ddechrau llenwi (4)
20 Poen sydyn (5)
24 "O --- yn deulu dedwydd.." gweddi cyn bwyta (3)

**ATEBION CROESAIR MAWRTH 2018**

**AR DRAWS** 5 Cyfenw, 7 Ymysg, 9 Moel, 10 Gwreiddyn, 11 Mamwlad, 13 Cnoad, 15 Lleidr,
17 Troseddu, 20 Awdurdod, 21 Iddew, 23 Gweddi, 24 Chwilen

**I LAWR** 1 Wylo,2 Gwaglaw, 3 Cymro, 4 Cynion, 6 Edliw, 8 Gwylaidd, 12 Anenwog, 14 Bradychu, 16 Deuddeg, 18 Seiri, 19 Idris, 22 Elen

Cafwyd nifer sylweddol o gamgymeriadau y tro hwn. Roedd pedwar ohonoch wedi cynnig 'Anelwig' yn ateb i 12 i Lawr, ond 'Anenwog' sy'n ateb orau i'r cliw "dim yn adnabyddus". A beth bynnag, y mae dwy 'n' yn y gair 'Annelwig'. Cafwyd 'Mandraw' yn lle 'Mamwlad'; 'Erlid' yn lle 'Edliw'; 'Llysenw' yn lle 'Cyfenw', a chafwyd 'Annaf' yn hytrach na 'Cnoad' (un 'n' sydd yn y gair 'Anaf' ! ).

Mae'r canlynol i'w canmol am anfon atebion hollol gywir: Ann Carran, Rita Bullock, Gaynor Elis-Williams, Bethesda; Emrys Griffiths, Rhosgadfan; Donna Coleby, Penwortham; John a Meirwen Hughes, Abergele; Doris Shaw, Bangor; John H. Evans, Llanberis; Gwenda Davies, Llanfairpwll; Gwyneth Jones, Glasinfryn; Gareth William Jones, Bow Street; Dulcie Roberts, Elizabeth Buckley, Tregarth; Dilys Parry, Rhiwlas; Myra a Gwilym Evans, Niwbwrch; Gwenda Roberts, Rhosmeirch; Jean Hughes, Talybont.

Yr enw cyntaf allan o'r het am y wobr y tro hwn oedd: Rosemary Williams, 19 Ffordd Tanrhiw, Tregarth, Bangor, Gwynedd LL57 4AH. Llongyfarchiadau mawr i chi.

Atebion erbyn 4 Mai, 2018 i 'Croesair Ebrill', Bron Eryri, 12 Garneddwen, Bethesda, Gwynedd LL57 3PD

**Atebion erbyn 4 Mai, 2018 i 'Croesair Ebrill'**
Bron Eryri, 12 Garneddwen, Bethesda LL57 3PD

**Enw**

**Cyfeiriad**

**JOHN ROBERTS**



Paentiwr

Papurwr

Teilsiwr

**Symudol: 07747 628650**
**Ffôn: 01248 600995**

**SIOP OGWEN**

Cardiau, CDs, Coffi Poblado, Crysau-T a Hwdis Cowbois, Crefftau, DVDs, Golwg, Llyfrau, Lluniau a llawer mwy!

Am fan hwylus ar y Stryd Fawr, cofiwch am Siop Ogwen am eich holl anghenion siopa! Galwch draw neu rhowch ganiad i'r Siop am ragor o wybodaeth.

33 Stryd Fawr, Bethesda (Drws nesaf i Neuadd Ogwen)

partneriaeth@ogwen.org
**01248 208 485**

**L. Sturrs**
**a'i feibion**
sefydlwyd yn 1965
ADEILADWYR
**Hen Iard Stesion,**
**Ffordd y Stesion, Bethesda**

**Ffôn: 600953**

**lsturrs@googlemail.com**

Oriel Cwm
Cwm y Glo, Caernarfon

Gwasanaeth fframio lluniau o bob math ar gael ar y safle
Prisiau rhesymol
Arddangosfa gan artistiaid lleol

Ffôn / Ffacs 01286 870882
RICHARD S. HUMPHREYS


# Rachub a Llanllechid


Angharad Llwyd Beech,
Garnedd Lwyd, 7 Llwyn Bedw LL57 3EZ
angharadllwyd@hotmail.com


**Clwb Llanllechid**
Cynhaliwyd y clwb pnawn Mercher Mawrth 14. Croesawyd pawb i'r cyfarfod ar bnawn digon gwlyb.

Cawsom bnawn diddorol iawn gyda Helen Coetmor Williams yn dweud hanes Clwb Dwylo Prysur. Mae Helen yn gweithio yn galed iawn ac mae'r plant a'r bobl ifanc yn lwcus iawn o gael yr arweiniad ganddi.

Gwnaethpwyd y te gan Rita a Medi. Enillwyd y wobr lwcus gan Margaret Owen. Bydd y cyfarfod nesaf ar Ebrill 11eg.

**Cydymdeimlad**
Cydymdeimlwn â Jean Williams 60 Maes Bleddyn a'r teulu wedi marwolaeth ei gwr Jack yn ddiweddar.

Cydymdeimlwn hefyd â Alan Owen a theulu Godre'r Ffridd, Bron Bethel wedi marwolaeth ei wraig Carole yn ddiweddar. Roedd Carole yn fam annwyl i Sara a Lowri, yn wraig gariadus, yn chwaer a nain dyner, ac yn ffrind ffyddlon iawn.

Roedd hi'n ddynes boblogaidd, a disgrifiwyd Carole yn yr angladd fel person gofalgar, ysbrydoledig a dewr yn meddwl y gorau o bawb. Yn gogyddes wych, wedi teithio'r byd – ond a'i gwreiddiau yn ddwfn yn Nyffryn Ogwen. Cymerodd ran yn y 'Moonwalk' yn Llundain gyda chriw o ffrindiau agos i gyd yn gwisgo crysau T gyda 'Carole's Crew' wedi ei ysgrifennu arno. Roedd ganddi ddiddordeb mawr mewn ffasiwn, ac ymarfer corff – ac yn aelod ffyddlon o'r dosbarth 'spin' ym Mhlas Ffrancon.

Bydd colled fawr ar ei hol.

**Disgo Royal Oak**
Cynhelir disgo elusennol ar Ebrill 21ain am 7.30 yn y Royal Oak Rachub i godi arian tuag at Ward gofal dwys Cybi Ysbyty Gwynedd, er cof am Geraint Jones 'Gonzo'. Cofiwch gefnogi.

Diolch i bawb fu'n cefnogi'r noson bingo hefyd a gynhaliwyd ar Fawrth 25ain.

**Cyflwr y ffyrdd**
Os ydych yn teimlo bod tyllau yn y ffordd yn anarferol o ddwfn, dylech ffonio Cyngor Gwynedd ar 01766771000 (fel y gwnaeth y cynghorydd Godfrey Northam yn ddiweddar i gael sylw i dyllau Llwyn Bleddyn) ond rhaid sylweddoli bod yr arian i wneud hyn wedi ei leihau yn sylweddol.

**Capel Carmel**
Trefn Gwasanaethau
Ebrill 22: Gweinidog.
Ebrill 29: Oedfa.
Mai 06: Gweinidog (Cymun)
Mai 13: Oedfa Cymorth Cristnogol.
Mai 20: Cymanfa Ysgolion Sul yn Emaus, Bangor am 10.30yb.
Mai 20: Parchg. Siôn Aled Owen am 2yp.

Oedfaon am 5.00 oni nodir yn wahanol. Croeso cynnes i bawb.

Ysgol Sul am 10.30 yb.
Clwb Dwylo Prysur, Nos Wener am 6.30yh.
Dydd Llun, 30 Ebrill. Te Bach . 2.30 – 4.00.

*Cydymdeimlo*
Rydym fel eglwys, yn cydymdeimlo â'n gweinidog a'r teulu, sef y Parchedig John Pritchard a'r plant, Aled, Dafydd a Gwenno, Gethin ac Annabel, Gruffydd a Gwawr, yn eu profedigaeth fawr o golli priod, mam, nain a chwaer annwyl a charedig. Bu Mrs. Falmai Pritchard farw'n dawel yn ei chartref, Cilfynydd, Lanberis, ar 15 Mawrth, yn 59 mlwydd oed.

Cynhaliwyd ei hangladd ar fore Sadwrn, 24 Mawrth yn Eglwys Sant Padarn a mynwent Nant Peris. Y Parchedig Robert O. Roberts oedd yn arwain y gwasanaeth gyda'r Parchedigion Gwyn Rhydderch, Bryn Williams, Rhodri Glyn ac Euros Wyn Jones yn cynorthwyo. Mr. Gareth Jones oedd wrth yr organ. Cafwyd cyflwyniad hyfryd o "Iesu, Iesu, rwyt ti'n ddigon" gan Gôr Seiriol yn ystod y gwasanaeth. Roedd Eglwys Sant Padarn yn orlawn gyda rhai yn sefyll oddi allan.

*Sul y Blodau – 25 Mawrth*
Cynhaliwyd oedfa fendithiol a drefnwyd gan Mrs. Helen Williams, a chafwyd cymorth rhai o'r aelodau sef Godfrey Northam, Arfon Evans, Margaret Bryn a Joe Hughes. Cafwyd deuawd gan Elen a Beca gydag Owain Morgan yn cyfeilio, cyn i Helen gyflwyno hanes Croesau'r Palmwydd o Affrica. Yn ystod yr emyn olaf bu Hannah a Dai Ifor yn rhannu croes o palmwydd i bawb yn y gynulleidfa. Diolch i chi Helen am drefnu.

Diolch hefyd i'n cyn weinidog, y Parchedig Geraint S. R. Hughes, am ddod atom ar nos Sul y Pasg.

Anfonwn ein cofion at yr holl aelodau sy'n sâl.

*Yr Ysgol Sul a Chlwb Dwylo Prysur*
Bu'n rhaid gohirio gwasanaeth Gŵyl Ddewi ar 4 Mawrth oherwydd yr eira, ond cynhaliwyd yr oedfa ar 11 Mawrth. Sul y mamau oedd hwn, ac felly 'roeddem yn dathlu dau achlysur efo'i gilydd. Y plant a'r bobl ifanc oedd yn cymryd rhan yn y



*Dyma Dai, Betsan gyda'i thelyn, a rhai o'r plant hynaf.*



*Dathlu Sul y Blodau a'r Pasg.*

gwasanaeth a chafwyd cyfraniadau gloyw a bendithiol ganddynt. Ar y diwedd cafodd pob plentyn dusw bychan o flodau i'w rhoi i'w mamau.

Ar Sul y Blodau yn yr Ysgol Sul, clywsom yr hanes am yr Iesu yn mynd i mewn i Jerwsalem ar gefn ebol asyn. Rhoddwyd croes balmwydd i bob un o'r plant, ac yna cyn iddynt droi am adref, mi gawson nhw Ŵy Pasg siocled bob un.

## Plaid Lafur Dyffryn Ogwen

Ar ddechrau mis Mawrth, cynhaliwyd y bore coffi blynyddol yng Nghanolfan Cefnfaes gyda raffl, tombola a stondin cacennau. Cafwyd bore pleserus efo cwmpeini da a gwnaed elw parchus.

Yna, yng nghanol yr wythnos, cynhaliwyd y cyfarfod cangen deufisol, gan dderbyn yr adroddiadau arferol e.e. Llywodraeth Cymru'n cynllunio i wella iechyd anadlu, Cyngor Bethesda'n ystyried cael diffibriliwr a chamerâu diogelwch ar Stryd Fawr Bethesda, a Chyngor Gwynedd yn penderfynu cau 39 o glybiau ieuenctid oni bai bod y gymuned yn penderfynu ei gadw'n agored. Barn y cyfarfod oedd cefnogi cynnig Llywodraeth Cymru i wahardd smacio ac ymosod yn gorfforol ar blant.

Yn hwyrach yn y mis, aeth llawer o aelodau'r gangen i gyfarfod dewis yr ymgeisydd Llafur ar gyfer yr etholiad cyffredinol nesaf yn 2022 neu'n gynharach. Bu pedwar ymgeisydd yn annerch y cyfarfod ac ateb cwestiynau, ond dewiswyd Mary Gwen unwaith eto – dim ond llai na chant o bleidleisiau oedd rhyngddi hi a'r ymgeisydd Plaid Cymru yn etholiad 2017.

Cynhelir cyfarfod nesaf y gangen ar yr ail Nos Fercher ym mis Mai (y 9fed) am 7:30 yng Nghanolfan Cefnfaes, Bethesda.

## Clwb Hanes Rachub

Dewch ar y trên bach….
cafwyd noson arbennig o ddifyr yng nghwmni Arwyn Oliver a Now Jones, ar ddiwedd mis Mawrth. Roedd y ddau wedi gwneud gwaith ymchwil trwyadl i agweddau a welir wrth deithio ar y Lôn Las o Borth Penrhyn i Chwarel y Penrhyn. Adroddai Arwyn yr hanes yn ddyheig gyda Now yn trin y peiriannau yn broffesiynol. Fel canlyniad mwynhawyd noson ddifyr ac addysgiadol iawn, ar ffurf sgwrs ac ar ffilm. Mae'r Lôn Las bellach yn cael defnydd go drwm gan feicwyr a cherddwyr ac yn adnodd o werth i'r ardal. Arianwyd y rhan fwyaf o'r llwybr yma gan arian o Gronfa Ewrop, erbyn hyn mae'n bur annhebygol y gwelwn ddatblygiadau o'r math yma yn fuan iawn, os byth eto.

Cyn cychwyn o Borth Penrhyn cafwyd hanes nifer o longau a gariai nwyddau a llechi i bedwar ban y byd o'r porthladd. Cychod fel Glanogwen, y Mary B. Mitchell a Linda Blanche. Cychod a adeiladwyd yn lleol, ac roedd nifer o chwarelwyr hirben wedi buddsoddi arian yn y fenter. Wyddoch chi fod model o un o'r cychod yma i'w gweld ar do adeilad ar y Stryd Fawr ym Mangor. Wyddoch chi ble y mae?

Cafwyd hanes y tramffyrdd, sef y math cyntaf o reilffordd a ddefnyddiwyd i gario llechi o'r chwarel. Tynnwyd y cerbydau gan geffylau yn y cyfnod yma. Yna hanes datblygiad lein fach y chwarel a chawsom fwynhau rhan o'r daith rhwng Porth Penrhyn a'r Felin Fawr, mewn ffilm ddifyr iawn. Cafwyd hanes rhai o'r injans fel, George Sholto, Linda a Blanche.

Cawsom hefyd hanes y brif reilffordd ar ei thaith o Fangor i Fethesda. Chwe cheiniog oedd y gost i deithio'r adeg hynny. Cafwyd hefyd gip ar dabl amser y trenau yn y pumdegau, ac aros am ysbaid yng ngorsafoedd Y Felin Hen, Tregarth a Bethesda, i glywed rhywfaint o hanes hynt a helynt y gorsafoedd yma.

Golygodd yr holl noson waith ymchwil aruthrol i Arwyn a Now, ac fel canlyniad cafwyd noson ddifyr ac addysgiadol gwerth chweil. Mawr yw'r diolch iddynt am eu llafur caled.

Bydd Ken Griffiths yn son am fywyd dau artist, Brenda Chamberlain a John Petts, a ddaeth i fyw i Rachub yn ystod tridegau'r ganrif ddiwethaf a thros gyfnod yr Ail Ryfel Byd. Cawn hefyd glywed am ei gwaith yn datblygu Caseg Press ym 1938. Nos Fercher, Ebrill 25 am 7.00 o'r gloch yn Festri Capel Carmel yw'r lle i fod

## Caerhun a Glasinfryn

**Cylch Glasinfryn**
Cawsom noson arbennig yn y Cylch i ddathlu Gŵyl Dewi wedi ei drefnu gan y talentog Marian Bryfdir. Daeth a dau ddisgybl sy'n astudio'r "llais" i'n diddanu, Lowri o Ros y Bol ac Aled o Lannerchymedd. Dan ei harweiniad, bu'r ddau yn perfformio gan egluro i ni aelodau'r Cylch sut mae rheoli'r llais a'i ddefnyddio yn gywir i gael y sŵn perffaith i ganu. Diolch i Marian ac i Lowri ac Aled. Diolchwyd iddynt gan Jean Pierce gan ddymuno gyrfa lwyddiannus i'r ddau. Mwynhawyd cawl a phryd bwyd blasus i ddiweddu'r noson, y cwbl wedi ei baratoi gan aelodau'r Cylch. Dewch i ymuno â ni yr ail nos Fercher ymhob mis. Mae croeso yn eich disgwyl!

**Geni**
Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Huw a Siân Griffiths, Penhower, Caerhun ar enedigaeth Tomos William ar 16 Mawrth, brawd bach i Lydia ac Elsi, ŵyr i James a Mair Griffiths, Pen y Bryn, a'r ugeinfed gor-ŵyr i Mrs Muriel Pritchard, Tegfan, Waen Wen !

**Bingo**
Yn anffodus oherwydd gwaeledd y trefnwyr, bu rhaid gohirio'r Bingo oedd i'w gynnal ar 6 Ebrill. Gobeithir ail drefnu ym mis Mai

**Cyngor Cymuned Pentir:** Hysbysfwrdd
Mae hysbysfwrdd cymunedol wedi ei osod ger cysgodfan bws yn Sgwâr Pentir. Bwriad yr hysbysfwrdd yw arddangos map hanesyddol o ardal y Cyngor. Hefyd, mae modd i grwpiau a chymdeithasau lleol sydd wedi trefnu digwyddiadau ar gyfer y cyhoedd rhoi posteri ar yr hysbysfwrdd. Diolch i Glerc y Cyngor, Mr Elwyn Jones am y trefnu.

**Gwefan (www.cyngorpentir.cymru )**
Erbyn hyn mae gan y Cyngor wefan ble ceir trosolwg o waith y Cyngor. Ceir manylion pwysig yno ynghyd â chyfrifoldebau'r Cyngor ac yn benodol am Fynwent Pentir sydd dan reolaeth y Cyngor. Mae'n nodi'r gwahanol wardiau ynghyd ag enwau'r cynghorwyr a'r newyddion diweddaraf. Gellir darganfod gwybodaeth ddefnyddiol am yr ardal ynghyd â mapiau o lwybrau cyhoeddus sydd dan ofal y Cyngor. Diolch i'r Cynghorydd Lowri James am drefnu'r holl waith paratoi.

## *Nyth Y Gân*

**Y Cipar**
Yn dawel a phwyllog y cerddai drwy'r coed
Gan wrando yn astud fel gwnaethai erioed,
Fe glywodd sŵn cipial y llwynog o bell
Ac aeth at y goedlan i'w glywed yn well.

Ei glust aeth yn feinach wth fynd yn ei flaen
Ac aros am dipyn a wnaeth wrth ryw faen,
A'i ddau lygad gerddodd hyd wyneb y tir
Wrth wrando o hyd ar y cipial clir.

Roedd sypiau o esgyrn yn bentwr gwyn
Yng ngenau daear y llwynog fan hyn,
Ymlwybro'n agosach wnaeth y cipar yn awr
Yn ofalus a distaw wrth droedio y llawr.

Â gwn dan ei gesail llwybreiddiodd y gŵr
Yn nes at y ddaear heb wneud unrhyw stŵr,
Fe ddaeth at y sypiau o esgyrn glân
Ac yn eu mysg gwelodd sawl pluen fân.

Meddyliodd y cipar am hir ar ei draed
Am rif y ffesantod a gollodd eu gwaed
A sut i roi terfyn ar laddfa o'r fath
Na welwyd gan gi na chwaith gan 'run gath.

Ac yna yng nghornel ei lygad syn
Cafodd gip ar y llwynog yn mynd tros y bryn
Gan adael ei ddaear yn y goedwig fawr
A gadael y cipar mewn siom yno'n awr.

Y cipar a drodd i chwilio am hir
Am gerrig gweladwy ar wyneb y tir,
Cymerodd beth amser i gau'r ddaear gron
Fel nad aethai'r llwynog byth eto i hon.

Y cipar medrus gyflwynodd ei waith
Oedd angenrheidiol o'i brofiad maith,
Ac o'r diwrnod hwnnw heb lawer o stŵr
Fe fagwyd ffesantod dan ddwylo y gŵr.

**Cân yr Afon**
Afon yn llawn barddoniaeth a'n denodd
I dynnu cerddoriaeth;
O'i lli y caf fi hen faeth
I lunio ei chwedloniaeth.

**Y Lili Wen Fach**
Y ddewraf ar wedd eira a welir
Mor wylaidd mewn manna'
Yn gryf o hyd rhag yr iâ,
Yn dalent er mor dila.

**Mynydd yn y Gaeaf**
Hen dŵr yr uchelderau yn unig
Ac yn wyn ar brydiau,
A melyn yw'r cymylau
Yn y gwynt o'i gopa'n gwau.

**Canu Cartrefol**
Be' well geir nac ambell gân i ddenu
Hen ddoniau ar lwyfan
Na hel yn tŷ o flaen tân
Yn rhamant sŵn yr hymian.

**Dafydd Morris**

## Penodi Dirprwy Arweinydd newydd Cyngor Gwynedd

Mae Arweinydd Cyngor Gwynedd, y Cynghorydd Dyfrig Siencyn wedi penodi y Cynghorydd Dafydd Meurig yn Ddirprwy Arweinydd newydd y Cyngor.

Mae'r Cynghorydd Dafydd Meurig sy'n cynrychioli ward Arllechwedd yn Nyffryn Ogwen yn aelod o Gyngor Gwynedd ers 2011 ac yn Aelod o Gabinet y Cyngor gyda chyfrifoldeb am faes cynllunio, trafnidiaeth a gwarchod y cyhoedd ers 2015. Bydd y Cynghorydd Meurig yn parhau i ddal portffolio Amgylchedd wrth iddo ymgymryd gyda rôl Dirprwy Arweinydd.

Wedi cychwyn ei yrfa yn y BBC, bu'n rhedeg busnesau yn y meysydd cyfryngau a chyhoeddi cyn cael ei ethol yn gynghorydd sir. Mae wedi bod yn weithgar yn ardal Dyffryn Ogwen ers blynyddoedd, ac mae ganddo ddiddordeb arbennig yng ngallu cymunedau i ddarganfod atebion i'w problemau eu hunain. Mae'n un o sylfaenwyr a chadeirydd presennol Partneriaeth Ogwen sy'n datblygu prosiectau cymunedol lleol - sy'n cynnwys Ynni Ogwen, cwmni cymunedol sy'n cynhyrchu trydan gwyrdd ar gyfer defnydd lleol.

Meddai'r Cynghorydd Dyfrig Siencyn: "Rydw i'n falch iawn o gael croesawu'r Cynghorydd Dafydd Meurig fel Dirprwy Arweinydd. Mae Dafydd yn aelod profiadol o'r Cabinet ac rwy'n sicr y bydd yn gwneud cyfraniad gwerthfawr i'r gwaith.

"Wrth gwrs, mae Dafydd yn olynu'r Cynghorydd Mair Rowlands fel Dirprwy Arweinydd. Hoffwn gymryd y cyfle i ddiolch iddi am ei gwaith fel Aelod Cabinet ac rwy'n sicr y bydd yn parhau i wneud cyfraniad pwysig fel aelod lleol ar y Cyngor."

Ar ei benodiad fel Dirprwy Arweinydd, dywedodd y Cynghorydd Dafydd Meurig: "Rydw i'n ei hystyried yn fraint ac yn anrhydedd i gael fy mhenodi yn Ddirprwy Arweinydd Cyngor Gwynedd. Rwy'n edrych ymlaen i gynorthwyo gyda'r gwaith i ddarparu'r gwasanaethau gorau posib i bobl Gwynedd."

Mae'r penodiad yn dilyn penderfyniad y Cynghorydd Mair Rowlands i sefyll i lawr o'i rôl ar Gabinet y Cyngor ac o'i rôl fel Dirprwy Arweinydd wedi iddi gael ei phenodi i swydd newydd fel Cyfarwyddwraig Undeb Myfyrwyr Bangor. Bydd aelod newydd yn cael eu penodi i gymryd lle'r Cynghorydd Rowlands ar y Cabinet yn fuan.

# gair neu ddau

John Pritchard

## Buddugoliaeth y Pasg

A ninnau newydd ddathlu'r Pasg, caed cyfle newydd i ddathlu'r fuddugoliaeth fawr a sicrhaodd Iesu Grist i bawb sy'n credu ynddo. Mae Cristnogion yr oesoedd wedi ymhyfrydu yn y fuddugoliaeth honno a ddisgrifiwyd mor gryno ac effeithiol gan Ann Griffiths wrth iddi ganu am Grist:
'Mae'n ddyn i gydymdeimlo
â'th holl wendidau i gyd,
mae'n Dduw i gario'r orsedd
ar ddiafol, cnawd a byd.'
Ond mae'r Pasg yn ein hatgoffa ei bod hefyd yn fuddugoliaeth lwyr dros farwolaeth. Oherwydd fel y dywed yr Apostol Paul yn y Testament Newydd, 'Y gelyn olaf a ddilëir yw angau' (1 Corinthiaid 15:26).

'Y gelyn olaf' medd Paul. Gellid yn hawdd iawn ychwanegu 'y gelyn gwaethaf' a'r 'gelyn cryfaf' a'r 'gelyn creulonaf' at y disgrifiad hwnnw. Ond dyma'r gelyn a wynebodd Iesu Grist er ein mwyn ni o'i fodd. Un o'r pethau mwyaf rhyfeddol y gellir ei ddweud am Iesu yw nad oedd rhaid iddo wynebu marwolaeth. Ni fyddai marwolaeth ar ei lwybr nac ar orwel ei fywyd ef o gwbl pe na fyddai wedi dewis ei wynebu trosom ni. Cariad perffaith Iesu Grist at bobl fel ni a barodd iddo dderbyn y rheidrwydd i farw er mwyn i ni gael byw. Mae wedi bodloni i farw, gan ddioddef holl gosb ein beiau yn ein lle. Gwnaeth hynny ar groes Calfaria, ac fe gofiwyd hynny eleni eto ddydd Gwener y Groglith.

Ond nid dyna'r diwedd; ac ar Sul y Pasg dathlwyd unwaith yn rhagor atgyfodiad Iesu o'r bedd. Do, fe ddaeth yn ôl yn fyw. Fe goncrodd angau, a dod eto at ei ddisgyblion. Ac ymhen deugain niwrnod fe'u gadawodd hwy wedyn pan gafodd ei ddyrchafu i'r nefoedd.

Ond nid dyna'r diwedd chwaith gan fod ei fuddugoliaeth ef dros angau yn fuddugoliaeth hefyd i bawb sy'n credu ynddo. Gobaith mawr y Ffydd Gristnogol, ac felly gobaith pob Cristion, yw na chaiff angau'r gair olaf yn ein hanes ni, yn union fel na chafodd y gair olaf yn hanes Iesu Grist. Mor werthfawr yw gwybod mai gelyn sydd wedi ei drechu yw marwolaeth. Er creuloned ei frath, er mor chwerw ei flas, gelyn a hen gollodd y dydd yw hwn. Ac oherwydd hynny, cysur mawr y Pasg yw:
'Am fod yr Iesu'n fyw,
byw hefyd fydd ei saint.'

Dathlu'r fuddugoliaeth ryfeddol a syfrdanol a wnaed y Pasg hwn eto gan gofio brawddeg arall a ddywedodd Paul yn y bennod fawr ar yr Atgyfodiad: 'Os ar gyfer y bywyd hwn yn unig yr ydym wedi gobeithio yng Nghrist, nyni yw'r bobl fwyaf truenus o bawb.'

---

**CYDYMDEIMLAD**:
Roedd yn ddrwg iawn gennym glywed am brofedigaeth awdur y golofn "Gair neu ddau". Bu farw Falmai, priod y Parchedig John Pritchard, ganol mis Mawrth. Anfonwn ein cydymdeimlad ato ef a'r teulu oll yn eu colled enfawr.

**DIOLCH**:
Diolch yn fawr iawn i bawb yn ardal Llais Ogwan a fu'n cydymdeimlo â ni fel teulu wedi marwolaeth Falmai ar Fawrth 15fed. Gwerthfawrogwn yr holl gyfarchion a ddaeth trwy ymweliad, galwad ffôn, llythyr, cerdyn a phob cyfrwng arall. Diolch i bawb a ddaeth i'r angladd yn Llanberis ar Fawrth 24ain. A diolch hefyd am yr holl roddion a gafwyd er cof am Falmai tuag at waith Tearfund a Hospis yn y Cartref Gwynedd ac Ynys Môn. John Pritchard, Dafydd, Gethin, Gruffudd, Aled a'r teulu cyfan, Cilfynydd, Llanberis.

**CAFFI COED Y BRENIN**
1 Rhes Buddug, Bethesda
**Ffôn: 01248 602550**
karena@agoriad.org.uk

**Bwyd cartref blasus**
*(mewn awyrgylch cyfeillgar)*
**Cinio arbennig bob dydd Iau**
**Bwyd i'w gario allan**
**Gwasanaeth arlwyo ar gyfer partïon o bob math - plant, pen-blwydd ac ati**
*(yn y caffi neu mewn lle o'ch dewis chi)*
**Cacennau ar gyfer pob achlysur e.e. priodas neu ben-blwydd**
**Prisiau rhesymol**

**BISTRO'R BRENIN (Bwyty Trwyddedig)**
Rydym yn croesawu partïon o bob math – dathlu pen-blwydd ac achlysuron arbennig eraill.
Beth am eich Parti Nadolig?

Gadewch i
**Londri Coed y Brenin**
wneud eich golchi

Arbenigwr mewn lloriau coed caled
A.G.L.
Lloriau
Arbenigwr mewn gosod a selio lloriau coed caled, adnewyddu lloriau gwreiddiol a chyweirio lloriau sydd wedi eu difrodi.
Andrew G. Lomozik B.A.
Ffôn: 01248 602117 Symudol: 07835487909

**Elwyn Jones & Co**
**hefyd yn masnachu fel**
**Parry Davies Clwyd-Jones & Lloyd LLP**
**- Cyfreithwyr -**
123 Stryd Fawr
Bangor
Gwynedd
(01248) 370224

*Ar gyfer eich holl anghenion cyfreithiol*
*Gwasanaeth dwyieithog personol a chyfeillgar*

*Swyddfeydd eraill:*
*Llangefni (01248) 723106*
*Porthaethwy (01248) 719517*
*Benllech (01248) 852782*
*Caernarfon (01248) 673616*
*Pwllheli (01758) 703000)*

# Chwaraeon

**Clwb Bowlio Bethesda**
Ar nos Sadwrn 17 Chwefror, cynhaliodd nifer o aelodau Clwb Bowlio Bethesda noson i godi arian i gronfa'r clwb pan ddaeth Wil Tân a'r Welsh Whisperer (Andrew Walton) i gyflwyno noson o adloniant yng Nghlwb Rygbi Bangor. Bu'n noson hynod o hwyliog ac meddai Richard Jones a John Roberts, trefnwyr y noson, "Mae'r gwerthiant tocynnau wedi bod yn ardderchog a diolch i bawb am eu cefnogaeth".

Mae Wil Tân yn enw ac yn wyneb cyfarwydd i lawer yng Nghymru wrth gwrs a chafodd ei weld ar S4C mewn sawl rhaglen. Mae ganddo lais tenor hyfryd a hawdd i wrando arno ac mae'n ffefryn gan lawer. Mae Andrew Walton y "Welsh Whisperer" yn fwy dieithr i lawer ond mae'n prysur wneud enw iddo'i hun ar hyd a lled Cymru. Mae'n ysgrifennu'r cyfan o'i ganeuon ei hun ac mae nifer ohonyn nhw a chefndir amaethyddol iddyn nhw. Mae ei ganeuon hefyd yn ddoniol ac yn gyfoes gan fod themâu fel disel coch a lotiau Mansel Davies ymhlith ei destunau heb son am bethau fel belio gwair. Adloniant gwerin o'r iawn ryw a braf oedd gweld criw o bobl ifanc yn eu harddegau yn ei ddilyn ac yn gwybod geiriau ei ganeuon.

Roedd Dilwyn Owen a Maldwyn Pritchard capteiniaid tîm A a thîm B yr hynafgwyr hefyd yn hapus iawn gyda'r gefnogaeth ar y noson a dywedodd Maldwyn, " Mae gynnon ni lawnt ardderchog ym Methesda a nifer o fowlwyr dawnus sy'n mwynhau chwarae ar wahanol ddyddiau yn yr wythnos. Bydd cronfa ariannol iach yn help i gadw'r timau i fynd a gobeithio y gwelwn fwy o nosweithiau tebyg ym Methesda cyn hir."



Andrew Walton y "Welsh Whisperer" wrthi'n ei morio hi ar y noson

Croeso i "Eric yr Eryr" i'r lawnt fowlio ger Lôn Newydd. Mae aelodau'r clwb yn hynod o ddiolchgar i Adran C.D.T Ysgol Dyffryn Ogwen am eu creadigaeth. Gobeithiwn bydd presenoldeb Eric yn dychryn rhai o'r



adar llai sy'n pigo a difrodi wyneb y lawnt.

Croeso hefyd i unrhyw un sydd a^ diddordeb ddod draw i'r lawnt am gêm neu baned a sgwrs ddifyr. Bydd y tymor yn dechrau ar Ebrill 7fed pan fydd tîm Sadwrn yn ymweld â Mochdre. Ar y 14eg o Ebrill bydd y tîm yn croesawu Llanelwy i Fethesda. Gemau eraill y mis yma fydd Prestatyn, oddi cartref, ar Ebrill 21ain a Benllech yn chwarae yma ar Ebrill 28ain.



*Dyma Huw Davies, James Owen a Josh Lynch. Chwaraewyr o Glwb Rygbi Bethesda. Roedd y tri yn rhan o dîm RGC dan 15 eg oedd yn fuddugol mewn cystadleuaeth cenedlaethol yn Aberhonddu yn yn ddiweddar. Ddaru nhw drechu tîm Casnewydd 30-5 yn y rownd derfynol ar ol curo tîm Castellnedd 20-10 yn y rownd gynderfynol. Diolch yn fawr i hyfforddwyr a gwirfoddolwyr y clwb am eu ymdrech efo'r timau ieuenctid drost y tymor.*

## Plaid Cymru – Cangen Dyffryn Ogwen

Gan fod Cyfarfod Blynyddol wedi ei ohirio oherwydd y tywydd garw rydym bellach wedi ail drefnu ar gyfer Nos Fawrth Mai 1af am 7:00 yr hwyr yng Nganolfan Cefnfaes, Bethesda. Yr un fydd y trefniadau, sef sgwrs gan Aaron Wynne, gŵr ifanc sydd yn drefnydd Etholaeth Arfon a chynghorydd sir Plaid Cymru yn Llanrwst. Bydd cyfle hefyd i drafod sut y mae edrych o'r newydd ar ein cangen leol.

Mae holl aelodau Plaid Cymru sydd gydag e-bost wedi derbyn gohebiaeth yn ddiweddar. Newyddlen ydyw sy'n ymwneud â'r digwyddiadau a gwybodaeth sydd angen ei rannu ar ran Plaid Cymru yn lleol. Rhennir hyn gan ddefnyddio system Mailchimp, a diolch i Dafydd Meurig am fod yn gyfrifol am ei osod. Os nad ydych yn ei dderbyn, edrychwch yn eich blwch "spam" rhag ofn, os nad yno cysylltwch gyda maryeds@hotmail.co.uk.

Gollyngdod a rhyddhad i ieuenctid a rhieni'r ardal oedd clywed bod y Cyngor Cymuned , sydd ag wyth aelod o Blaid Cymru yn eu plith, wedi cytuno i ariannu a chefnogi Clwb Ieuenctid ym Methesda, fel na fydd yn cau wedi toriadau'r Cyngor Sir. Mae'r sylwadau ar y cyfryngau cymdeithasol wedi bod yn gadarnhaol iawn.

Cyn diwedd y mis bydd y rhan helaethaf ohonoch wedi derbyn Llais Arfon yn eich cartrefi, sef taflen newyddion Siân Gwenllian A.C. a Hywel Williams A.S. Rydym yn ffodus iawn o'r ddau ac o'u hadnabyddiaeth gref o'u hetholaeth a'i phobl fel eu bod yn gallu gweithio drostynt a'u bod wrth law i wrando ar eu hetholwyr.